


# YSGOL O. M. EDWARDS
# LLANUWCHLLYN
# LLAWLYFR 2020-2021






**YSGOL O.M.EDWARDS, LLANUWCHLLYN**

dilysjones@gwynedd.gov.uk

## CROESO

Annwyl Rieni/Gwarcheidwaid,
Mae'n bleser gennyf gyflwyno Llawlyfr Ysgol O. M. Edwards i'ch sylw fel rhieni/gwarcheidwaid. Gobeithiaf y cewch ynddo wybodaeth ddigonol am yr ysgol.

Ein nod yw creu ysgol gyfeillgar a hapus sy'n rhoi pob anogaeth i'ch plentyn ddysgu a datblygu hyd eithaf ei allu yn ystod ei amser hefo ni. Ceisiwn sicrhau bod yr ysgol yn lle diogel a braf ble caiff eich plentyn ei werthfawrogi a'i drin fel unigolyn. Ceisiwn annog y plant i fod yn aelodau cyfrifol o'r ysgol a'u cymdeithas leol a chyfagos, ac i dyfu'n bersonau sy'n ystyriol o eraill ac o'u hamgylchedd. Amcanwn i roi'r addysg orau bosibl i'n disgyblion.

Mae perthynas agos rhwng y cartref a'r ysgol yn bwysig, a gwyddom y cawn bob cydweithrediad gennych yn hynny o beth. Os oes gennych unrhyw gwestiynau neu ymholiadau pellach ynglŷn ag unrhyw fater, mae croeso i chi gysylltu gyda'r ysgol.

Cafodd yr ysgol ei henwi ar ôl un o feibion enwocaf Llanuwchllyn, sef Syr O. M. Edwards (1858-1920). Cafodd ei eni yng Nghoed–y-Pry ac wedi cyfnodau o fod yn diwtor yn Rhydychen, bu am flynyddoedd yn Aelod Seneddol dros Meirionnydd. Yn 1907 cafodd ei ddyrchafu i fod yn brif arolygydd ysgolion Cymru – y cyntaf i'w benodi i'r swydd honno. Gwnaeth waith aruthrol i addysg Cymru ond mae'n debyg mai ym myd cyhoeddi llyfrau Cymraeg i oedolion a phlant y gwelwyd ei ddylanwad fwyaf.

Ei fab oedd Syr Ifan ab Owen Edwards, sylfaenydd Urdd Gobaith Cymru. Mae cofgolofn i'r ddau wrth yr ysgol. Ein braint yw cael bod yng nghysgod y ddau arbennig yma, a chawn ein hysbrydoli'n aml gan eu gwaith a'u doethineb.

Yn ystod Ionawr 2018, cafodd yr ysgol ei harolygu gan Estyn, a braint i ni yw cael rhannu'r adroddiad yma gan i ni gael llwyddiant mawr, a chael barn o ragoriaeth mewn Iechyd a Lles y disgyblion. Cafwyd canmoliaeth uchel iawn i safonau Cymraeg y disgyblion ar holl gyfle y cant yma i gymryd rhan mewn gweithgareddau amrywiol. Mae'r ysgol yn cael cryn lwyddiant yn lleol a Chenedlaethol, a'r staff yn 2018 yn cael eu gwobrwyo gan Wobr Addysgu Cymru am arfer rhagorol mewn technoleg gwybodaeth a chyfathrebu. Mae'r ysgol hefyd yn cydweithio'n agos gyda Llywodraeth Cymru i ddatblygu Cwricwlwm newydd ar gyfer 2020, a hefyd gweithio ar y Safonau Proffesiynol newydd gyda'r Llywodraeth, gan rannu arferion da yn ddalgylchol, Sirol a Chenedlaethol. Rydym i gyd yn falch iawn o gael y clod ar anrhydedd yma, ac am yr holl waith caled a wnawn er lles y disgyblion.

Mae'r ysgol wedi agor ar ei newydd wedd ers 2013 wedi gwariant sylweddol, rydym yn dal i ychwanegu, yn raddol, at y cyfleusterau a'r ethos o gwmpas yr adeilad. Yn ystod y tymor yma rydym wedi bod yn ail-greu ardal addas ar gyfer y Cyfnod Sylfaen a'r disgyblion Meithrin a Derbyn yn arbennig. Mae gwir angen datblygu'r cae chwarae ar gyfer y disgyblion i gyd, a pharhau i brynu offer mawr iddynt chwarae ar y cae megis goliau pêl droed a rygbi newydd eleni.

Felly, mae tipyn o waith yn dal i'n hwynebu o ran yr adeilad a'r cyfleusterau tu allan. Diolchwn yn fawr iawn am gymorth Cyfeillion yr Ysgol sydd yn barod iawn i gasglu'r arian i roi mwy o adnoddau i ni. Gallaf eich sicrhau bydd yr holl staff a minnau yn gwneud ein gorau glas dros eich plant, ac yn sicrhau y byddant i gyd yn hapus a gweithgar iawn yn ein cwmni.

Yr eiddoch yn gywir,
Dilys Ellis-Jones
Pennaeth



## 1. MANYLION YMARFEROL

| | |
|---|---|
| ENW'R YSGOL: | YSGOL O.M.EDWARDS |
| CYFEIRIAD: | LLANUWCHLLYN,<br>Y BALA,<br>GWYNEDD<br>LL23 7UB |
| FFÔN: | (01678) 540242 |
| E-BOST: | dilysjones@gwynedd.gov.uk |
| GWEFAN YR YSGOL: | www ysgolomedwards co.uk |
| PENNAETH: | Dilys Ellis-Jones, B.Add. Anrhydedd |
| CADEIRYDD Y LLYWODRAETHWYR: | Mr Alan Jones Evans |
| IS-GADEIRYDD Y LLYWODRAETHWYR: | Mr Alwyn Roberts |
| Clerc y Llywodraethwyr: | Mrs Nest Davies |

Cyfrif 'twitter'@ysgolomedwards / facebook: Cyfeillion O M Edwards

**STAFF YR YSGOL**

| | |
|---|---|
| Athrawon Dosbarth: | Mrs Dilys Ellis-Jones |
| | Mr Sion Tudor Jones, Bl. 5 a 6 |
| | Mr Dafydd Williams, Bl. 3 a 4 |
| | Mrs Siwan Davies, Bl. 1 a 2 |
| | Miss Elliw Angharad Jones, Bl. M a D |
| Athrawon Llanw: | Mrs Nia Morgan |
| | Mrs Iola Edwards |
| Cymorthyddion: | Manon Roberts, |
| | Ffion Mair Jones, Leah Jones |
| Cogyddes: | Mrs Catrin Morris |
| Cymhorthydd Cegin: | Mrs Ann Lloyd |
| Gofalwr: | Mr Emyr Jones a Mrs Beryl Jones |
| Gofalwyr amser cinio a Chlwb Brecwast: | Ffion Jones, Manon Roberts a Leah Jones |
| Ysgrifenyddes a Chlerc Cinio: | Mrs Nest Davies – Dydd Mercher a Dydd Gwener |

| | |
|---|---|
| DISGRIFIAD O'R YSGOL: | Ysgol Gynradd Sirol (Cyfnod Allweddol 1 a 2) yw'r ysgol hon. Mae'n ysgol ddyddiol ddwyieithog gydaddysgol. |
| SESIWN Y BORE: | 9.00 - 12.00 |
| SESIWN Y PRYNHAWN: | 1.00 - 3.30 |

### ◊ POLISI DERBYN I'R YSGOL:

Mae'r ysgol hon yn gweithredu yn unol â pholisi derbyn Awdurdod Addysg Gwynedd fel a ganlyn:– Yn rhan amser ym mis Medi yn dilyn eu pen-blwydd yn 3 oed ac yna yn llawn amser ym mis Medi yn dilyn eu pen-blwydd yn 4 oed. Mae unrhyw gais derbyn plant i'r Ysgol yn cael ei yrru i Mr Owain Dewi Hughes, Adran Addysg. Nid oes trosglwyddiad awtomatig o'r Meithrin i'r Derbyn, a chan mai Awdurdod Addysg Gwynedd yw'r Awdurdod Derbyn, bydd yr Awdurdod yn ystyried ceisiadau. Bydd rhaid cyfeirio unrhyw gais i'r Sir yn gyntaf.

### ◊ AROLYGIAD

Cafodd yr Ysgol ei Harolygu ym Mis Ionawr, 2018 a gellir gweld copi llawn o'r adroddiad trwy ofyn am gopi o'r ysgol neu ar wefan www estyn gov.uk neu ar wefan yr Ysgol www ysgolomedwards co.uk.

**Dyddiadau'r Ysgol 2020 – 2021 (ac ar gael ar wefannau Cyngor Gwynedd a'r ysgol)**

**TYMOR:**

| | |
|---|---|
| Hydref 2020 | 1 Medi 2020 — 18 Rhagfyr 2020 |
| Gwanwyn 2021 | 4 Ionawr 2021 — 26 Mawrth 2021 |
| Haf 2021 | 12 Ebrill 2021 — 20 Gorffennaf 2021 |

Bydd disgyblion yn dychwelyd i'r ysgol ddydd Mawrth, 4 Medi, 2018.

**GWYLIAU:**

| | |
|---|---|
| 26 – 30 Hydref 2020 | (Hanner-Tymor) |
| 21 Rhagfyr 2020 – 1 Ionawr 2021 | (Gwyliau'r Nadolig) |
| 15 – 19 Chwefror 2021 | (Hanner-Tymor) |
| 29 Mawrth – 9 Ebrill 2021 | (Gwyliau'r Pasg) |
| 3 Mai 2021 | (Calan Mai) |
| 31 Mai – 4 Mehefin 2021 | (Hanner-Tymor) |
| 21 Gorffennaf – 31 Awst 2021 | (Gwyliau'r Hâf) |



Bydd yr ysgolion yn ail-agor **ddydd Llun, 1af o Fedi, 2020** i athrawon,
a dydd Mawrth, 2 Medi i ddisgyblion.

**Daw hyn a nifer dyddiau ysgol i ddisgyblion i 190**



## ◊ CRYNODEB O'R POLISI YNGLŶN Â CHODI TÂL:

### Codir tâl llawn ar rieni disgyblion:

◊ Mae Cyngor Gwynedd wedi darparu sytem talu ar-lein am ginio a chlwb gofal yr ysgol.
◊ Mae gan yr ysgol hefyd system ***eezee trip*** i allu talu am laeth, ffrwythau, nofio, yr Urdd, tripiau ayyb.
◊ Ein nod yw datblygu system fel nad yw'r plant yn gorfod cario arian parod na sieciau i'r ysgol.

i am bob gweithgaredd sy'n digwydd y tu allan i oriau ysgol oddigerth yr hyn sy'n angenrheidiol i ofynion y Cwricwlwm Cenedlaethol neu ofynion statudol addysg grefyddol;

ii am gostau bwyd a llety ar gyfer gweithgareddau preswyl a drefnir gan yr ysgol neu'r AALl (ac eithrio disgyblion y mae eu rhieni yn derbyn Cymorth Incwm neu Gredyd Teulu lle rhoddir ad-daliad llawn);

iii os oes difrod i werslyfrau neu offer addysgol sy'n deillio o gamymddygiad y disgybl.

### Gellir codi tâl yn rhannol:

i am ddifrod i ffenestri neu ffitiadau adeiladau ysgol yn deillio o gamymddygiad disgybl;

ii am wersi offerynnol cerdd;

iii teithio i wersi nofio.

Ni chodir tâl am fwyd a llety disgybl sy'n mynychu cyrsiau i ddibenion y Cwricwlwm Cenedlaethol.

Gyda gweithgareddau dewisol sy'n digwydd o bryd i'w gilydd yn ystod oriau ysgol, gofynnir am gyfraniadau gwirfoddol gan rieni. (Hysbysir y rhieni yn y dechrau mai gwirfoddol yw unrhyw gyfraniadau ond cedwir yr hawl i beidio parhau gydag unrhyw drefniadau os nad oes digon o gyfraniadau wedi dod i law.)

Pan fo corff allanol yn trefnu gweithgaredd, gall yr ysgol roi caniatâd i'r disgybl fod yn absennol o'r ysgol a gellir codi tâl llawn. Gellir caniatáu hyd at 10 diwrnod ymhob blwyddyn.

## 2. CWRICWLWM, TREFNIADAETH YR ADDYSG A DULLIAU DYSGU'R YSGOL

Yn unol â gofynion statudol, mae'r AALl wedi llunio, ac yn bwriadu adolygu'n rheolaidd, ddatganiad ysgrifenedig o'i bolisi mewn perthynas â'r cwricwlwm seciwlar. Dehonglir gofynion y Cwricwlwm Cenedlaethol yng nghyd-destun athroniaeth a pholisïau presennol yr AALl.

Dyfynnir isod ragair ac amcanion cyffredinol y datganiad fel y gwelir hwynt yn nogfen yr AALl:

**Rhagair**

*Pwrpas cyfundrefn addysg yw creu sefyllfaoedd a chyflenwi adnoddau fydd yn galluogi pob plentyn i dyfu yn bersonoliaeth lawn, i ddatblygu ac ymarfer ei holl ddoniau, fydd yn darparu ar ei gyfer yn ôl oedran, gallu a diddordeb, ac yn ei gymhwyso i fod yn aelod cyfrifol o gymdeithas ddwyieithog, yn aelod fydd yn gallu cyfrannu iddi a derbyn oddi wrthi, a byw mewn heddwch a brawdgarwch gyda'i gyd-ddyn.*

Y mae i'r datganiad cyffredinol hwn dair agwedd gydberthnasol:

(a) Galluogi pob plentyn i ddatblygu i'w lawn botensial.

(b) Sicrhau bod pob plentyn yn cael ei gyflwyno i'r etifeddiaeth Gymreig.

(c) Rhoi cyfle i bob plentyn ddatblygu fel aelod llawn o gymdeithas sy'n prysur newid.

### Amcanion cyffredinol

1. Datblygu sgiliau llafaredd, llythrennedd a rhifedd yng nghyd-destun symbylu chwilfrydedd, dychymyg a diddordeb y plentyn.

2. Cynyddu gwybodaeth y plentyn a datblygu ei gallu/allu i resymu er mwyn ei chynorthwyo/gynorthwyo i addasu i fyd sy'n gyflym newid ac yn mynd yn fwy soffistigedig yn ei brosesau a'i dechnegau, yn arbennig mewn perthynas â thechnoleg gwybodaeth.

3. Creu ym mhob plentyn yr awydd i geisio am fwy o wybodaeth a phrofiadau yn ystod ei bywyd/fywyd, a datblygu ei meddwl/feddwl a'i synnwyr moesol ac ysbrydol

4. Cynorthwyo'r plentyn i fedru byw a gweithio gydag eraill a datblygu agweddau fydd yn ei galluogi/alluogi i fod yn aelod cyfrifol o gymdeithas.

5. Datblygu yn y plentyn sensitifrwydd, gwerthfawrogiad esthetig a sgiliau hamdden.

6. Rhoi sylw arbennig i bob plentyn sydd ag anghenion arbennig, e.e. rhai eithriadol o alluog a rhai sydd dan anfanteision amrywiol.

7. Cyflwyno syniadau a chysyniadau a hynny trwy ddulliau bywiog a deinamig sy'n hawlio ymateb y disgybl.

**CYFLEOEDD CYFARTAL**

Prif athroniaeth ac amcanion yr ysgol yw bob gonestrwydd, urddas a gwerth pob unigolyn o'r pwysigrwydd mwyaf. Ymdrechir i roi cyfle cyfartal i bob isgybl ac athro/athrawes ar bob adeg heb wahaniaethu ar sail rhyw, crefydd, lliw, iaith nac anabledd.

**DISGYBLION SYDD AG ANABLEDDAU**

Mae cynllun yr ysgol yn sicrhau mynediad rhwydd i ddisgyblion a rhieni sydd ag anableddau. Gwneir trefniadau arbennig rhwng yr ysgol a'r cartref pan fop disgybl ag anableddau neu Anghenion Dysgu Ychwanegol yn cychwyn yn yr ysgol. Cysyllter â'r Pennaeth am ragor o fanylion. Mae'r ysgol yn sensitif i anghenion disgybblion sydd ag anableddau ac yn gwneud pob ymdrech i'w cynnwys ym mhob agwedd o fywyd a gwaith yr ysgol Gymraeg.

Mae ystafell gyda chawod ar gael yn yr ysgol i hyrwyddo anghenion disgyblion sydd ag anableddau.

**Cwricwlwm i Gymru 2020. (Hwb —Cwricwlwm i Gymru)**
(https://hwb.gov.wales/cwricwlwm-i-gymru) Mae cael cwricwlwm newydd i Gymru yn gyffrous. Y cam nesaf ydy ei weld yn dod yn fyw mewn ysgolion. Fe fyddwn ni yma yn dechrau newid y pethau rydym yn eu dysgu a'r ffordd o'u dysgu cyn hyn. Ar hyn o bryd rydym wrthi'n paratoi ar gyfer y cwricwlwm newydd yn barod.

**Fe fydd y cwricwlwm newydd yn dechrau ym mis Medi 2022.** Bydd y Cwricwlwm newydd yn tyfu gyda'r disgyblion.

Nod canllawiau Cwricwlwm i Gymru yw helpu pob ysgol i ddatblygu ei chwricwlwm ei hun, gan alluogi ei dysgwyr i ddatblygu tuag at bedwar diben y cwricwlwm — y man cychwyn a'r dyhed ar gyfer pob plentyn a pherson ifanc yng Nghymru.

**Mae canllawiau Cwricwlwm i Gymru yn amlinellu:**

gofynion cwricwlwm arfaethedig a nodir mewn deddfwriaeth ar gyfer pob dysgwr 3 i 16, er mwyn sicrhau bod yr un dysgu craidd yn digwydd ym mhob ysgol, a sicrhau dull cyson ar gyfer yr holl ddysgwyr yng Nghymru.

**Y Pedwr Diben**

Dylai'r pedwar diben fod yn ddyhead ac yn nod terfynol ar gyfer y cwricwlwm a gynllunir gan ysgolion. Yn y pen draw, nod cwricwlwm ysgol yw cefnogi ei dysgwyr i ddod yn :

- ddysgwyr uchelgeisiol, galluog sy'n barod i ddysgu gydol eu bywydau
- gyfarbwyr mentrus, creadigol sy'n barod i chwarae rhan lawn mewn bywyd a gwaith
- ddinasyddion egwyddorol, gwybodus yng Nghymru a'r byd
- unigolion iach, hyderus sy'n barod i fyw bywyd cyflawn fel aelodau gwerthfawr o gymdeithas.


**Mae'r Cwricwlwm newydd i Gymru wedi ei rannu yn 6 Maes Dysgu a Phrofiad, sef:**

| **Y Celfyddydau Mynegiannol** | **Iechyd a lles** | **Y Dyniaethau** |
|---|---|---|
| Archwilio'r celfyddydau fel eich bod chi'n dysgu defnyddio'ch gwybodaeth, eich sgiliau a'ch dychymyg i greu.<br>Dysgu gwerthfawrogi'r celfyddydau a myfyrio ar eich gwaith eich hun. | Dysgu am fwyta'n iach a pherthnasoedd iach.<br>Dysgu gwneud penderfyniadau da a delio â dylanwadau.<br>Dysgu sut i ofalu am eich iechyd meddwl a'ch lles emosiynol. | Archwilio hanes, daearyddiaeth, gwleidyddiaeth, crefyddau, busnesau, diwylliannau a chymdeithasau yng Nghymru ac o amgylch y byd. |
| **Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu** | **Mathemateg a Rhifedd** | **Gwyddoniaeth a Thechnoleg** |
| Dysgu am ieithoedd.<br>Deall a defnyddio'r Gymraeg, y Saesneg ac ieithoedd rhyngwladol eraill.<br>Deall a chreu llenyddiaeth. | Deall rhifau.<br>Deall rhifau a defnyddio symbolau mewn mathemateg.<br>Archwilio siapiau a mesuriadau.<br>Dysgu am ystadegau a thebygolrwydd. | Deall pwysigrwydd gwyddoniaeth a thechnoleg.<br>Dysgu am ddylunio a pheirianneg, pethau byw, sylwedd, grymoedd ac egni, a sut y mae cyfrifiaduron yn gweithio. |

**Gellir gweld cynnwys pob maes yn fanwl drwy fynd ar wefan Cwricwlwm i Gymru, Llywodraeth Cymru.**

# Y Cyfnod Sylfaen:

## Meysydd y Cyfnod Sylfaen (CS):





Mae'r Cyfnod Sylfaen yn gosod pwyslais mawr ar ddatblygu'r plant yn y meysydd a ganlyn:

- Sgiliau a dealltwriaeth.
- Lles personol, cymdeithasol, emosiynol, corfforol a deallusol er mwyn datblygu'r plentyn cyfan.
- Agweddau cadarnhaol at ddysgu fel y bydd y plant yn mwynhau ac am barhau â'u haddysg am gyfnod hirach.
- Hunan-barch a hunan-hyder i arbrofi, ymchwilio, dysgu pethau newydd a ffurfio perthynas newydd ag eraill.
- Arsylwi a sgiliau mynegiannol a chreadigol i annog eu datblygiad fel unigolyn, gyda ffyrdd gwahanol o ymateb i brofiadau
- Gweithgareddau awyr agored er mwyn i'r plant gael profiad ymarferol o ddatrys problemau go iawn mewn agweddau fel mathemateg a gwyddoniaeth a dysgu am gadwraeth a chynaliadwyedd

Mae'r Cyfnod Sylfaen, yn gosod pwyslais mawr ar blant yn dysgu drwy wneud. Dylai plant ifanc gael mwy o gyfle i ennill profiad ymarferol trwy chwarae a chymryd rhan mewn gweithgareddau yn hytrach na thrwy gwblhau ymarferion mewn llyfrau.

Rhoddir pwyslais ar ddatblygu sgiliau siarad a gwrando plant, a fydd yn gosod sylfaen gadarn i ddatblygu sgiliau darllen ac ysgrifennu. Dylid rhoi mwy o bwyslais ar sut mae pethau'n gweithio, a dod o hyd i ffyrdd gwahanol o ddatrys problemau.

## Mae pynciau'r Cwricwlwm 7 – 11 oed yn cynnwys:




### IAITH

Mae iaith yn ddylanwad unigryw yn natblygiad plentyn ac yn sylfaen pob dysg. Ceisiwn feithrin agwedd gadarnhaol at iaith drwy gynnig i blentyn amrywiol brofiadau a fydd yn symbylu ymateb synhwyrol, bywiog a deallus ac a fydd yn datblygu gallu ieithyddol plentyn yn ei holl agweddau goddefol a gweithredol – a hynny yn y ddwy iaith. Byddwn yn meithrin diddordeb plentyn mewn llenyddiaeth yn ei hamryfal ffurfiau gan sicrhau bod y profiad o ddarllen, gwrando, gwylio ac ymateb bob amser yn bleserus ac yn foddhaus. Drwy wneud hyn, byddwn yn creu yn y plentyn ymwybyddiaeth o werth yr etifeddiaeth Gymreig fel y gall ymdeimlo â chyfoeth ei gefndir (cynhenid neu fabwysiedig) a pharchu gwahanol ddiwylliannau. Yn gryno, byddwn yn datblygu pedair elfen ieithyddol, sef gwrando, siarad, darllen ac ysgrifennu fel a ganlyn:-

**GWRANDO**

Datblygu gallu plentyn i wrando'n effeithiol mewn sefyllfaoedd torfol, sefyllfaoedd grŵp ac

fel unigolyn er mwyn iddo gael pleser neu ddiddanwch, ymateb i gyfarwyddyd ac ymateb yn greadigol.

**SIARAD**

Datblygu gallu plentyn i siarad yn glir, yn ddealladwy ac yn hyderus mewn iaith briodol i'r sefyllfa dan sylw, gan ymarfer gofal am gywirdeb

**DARLLEN**

Meithrin y plentyn fel darllenwr o'r cychwyn cyntaf fel y gall gael pleser neu ddiddanwch;
– ddyfnhau ei ddealltwriaeth;
– gasglu gwybodaeth;
– ddatblygu'i allu i fod yn feirniadol yn ei ddarllen ac i werthfawrogi llyfrau da.

**YSGRIFENNU**

Rhoi cyfle i'r plentyn ymateb yn ysgrifenedig i wahanol brofiadau a sefyllfaoedd ac i ysgrifennu i wahanol ddibenion fel y gall ...
– ddefnyddio ysgrifennu fel cyfrwng i ddod i delerau â'i fyd;
– ddefnyddio ysgrifennu i ddyfnhau'i ddealltwriaeth;
– ddewis a defnyddio ffurf ar ysgrifennu sy'n briodol ar gyfer y pwrpas sydd iddo.

## RHIFEDD / MATHEMATEG

Mae syniadau a thechnegau mathemategol yn rhan hanfodol o fywyd pob dydd ac yn cyfrannu'n sylweddol at ein dealltwriaeth o'r byd o'n cwmpas. Amcenir yn yr ysgol at ddatblygu agwedd bositif tuag at fathemateg fel pwnc diddorol i'w fwynhau. Ceisiwn ddatblygu yn y plentyn y gallu i feddwl yn glir ac yn rhesymegol gyda hyder ac ystwythder fydd yn arwain at y ddawn i fynegi syniadau'n glir, drafod y pwnc gyda sicrwydd ac i ddefnyddio iaith fathemategol a'i gymhwyso i sefyllfaoedd yn y cartref, yr ysgol a'r gymdeithas.

## GWYDDONIAETH

Mae gwyddoniaeth yn rhan o fywyd a bydd y plentyn yn datblygu:
a) meddwl dadansoddol a beirniadol drwy ddilyn dulliau rhesymegol a darganfod yn seiliedig ar arsylwi, dyfalu ac arbrofi;
b) dealltwriaeth o bethau byw a phrosesau sylfaenol bywyd;
c) dealltwriaeth o'r modd y gellir defnyddio a datblygu adnoddau'r amgylchfyd.

## TECHNOLEG GWYBODAETH A CHYFATHREBU

Mae'r Datblygiadau diweddaraf ym myd addysg wedi rhoi statws uchel i Dechnoleg Gwybodaeth, ynghyd â disgrifiad clir o natur y pwnc. Nodweddir gallu Technoleg Gwybodaeth gan allu i ddefnyddio offer a ffynonellau gwybodaeth T.G. yn effeithiol i ddadansoddi, prosesu a chyflwyno gwybodaeth ac i fodelu, mesur a rheoli digwyddiadau allanol. Yn yr ysgol rhoddir y pwyslais ar ddatblygu T.GCh. drwy bynciau'r Cwricwlwm Cenedlaethol, a gwelir y cyfrifiadur fel 'arf trawsgwricwlaidd'. Mae'r ysgol yn diweddaru adnoddau TGCh yn gyson ac mae hyn yn cynnwys cysylltiad 'diwifr' drwy'r ysgol.

## CELFYDDYDAU

Mynegiant yw celfyddyd o ymdrech dyn i ganfod ceinder y byd a'i bethau trwy ddefnyddio ei synhwyrau i sylwi, i ddychmygu, i ryfeddu ac i greu. Credwn yn gryf fod gan y celfyddydau swyddogaeth bwysig iawn yn natblygiad y plentyn a byddwn yn ei ysgogi i gymryd rhan mewn gweithgareddau cerddorol, drama, symud a dylunio, crefft a thechnoleg. Trwy synio am y celfyddydau fel elfen intigreiddiedig yn y diwrnod ysgol gellir cynnig i blentyn gyfle i roi ei ddychymyg, ei wreiddioldeb a'i chwilfrydedd ar waith. Rydym yn ymfalchïo yn y ffaith y cynigir aml gyfle celfyddydol yn yr ysgol a chawn gryn lwyddiant yn Genedlaethol.

## ASTUDIAETHAU AMGYLCHEDD

Y mae pawb ohonom yn rhan o gymdeithas ac amgylchfyd sy'n gyd-ddibynnol ac felly y mae ymwybyddiaeth o'r gymdeithas honno – ei nodweddion a'i hanghenion – a gwybodaeth a dealltwriaeth o'r amgylchfyd yn rhan naturiol o broses datblygiad y plentyn. Yn yr ysgol hon, byddwn yn canolbwyntio ar bedair agwedd yr ydym yn ceisio'u datblygu yn y plentyn.

### AGWEDDAU CYMDEITHASOL

Datblygu ymwybyddiaeth o elfennau penodol sy'n rhan o wead cymdeithas a'u cyd-ddibyniaeth.

### AGWEDDAU HANESYDDOL

Datblygu ymdeimlad o hanes ar sail tystiolaeth leol a meithrin diddordeb plentyn yn nylanwad y gorffennol ar ddyn.

### AGWEDDAU BYD NATUR

Ysgogi diddordeb y plentyn yn holl agweddau byd natur a meithrin ei allu i'w werthfawrogi a'i barchu, gan ei wneud yn ymwybodol o'i gyfrifoldeb tuag ato.

### AGWEDDAU DAEARYDDOL

Meithrin diddordeb y plentyn yn nhirwedd, hinsawdd ac elfennau daearyddol amlwg yr amgylchfyd, gan ystyried eu dylanwad ar fodolaeth a lleoliad y gymdeithas.

Mae gan yr ysgol gysylltiad agos iawn ag Ysgol Jaleshwary yn Nepal, a bydd y disgyblion yn ysgrifennu i'w cyfeillion yng nghartref Sonrisa yn Nepal. Byddwn yn croesawu ymwelwyr o'r wlad yn aml a chynnal diwrnod Nepalaidd.

## CERDDORIAETH

Dylai gweithgareddau cerddoriaeth alluogi'r dysgwyr i adeiladu ar y sgiliau, yr wybodaeth ar ddealltwriaeth a gafaelwyd yn y Cyfnod Sylfaen. Mae addysg am gerddoriaeth yn galluogi'r dysgwyr i ymwneud â cherddoriaeth,  a mwynhau creu cerddoriaeth. Byddant yn cymryd rhan mewn gwaith perfformio, cyfansoddi, a gwerthuso cerddoriaeth. Bydd y sgiliau hynny'n cynnwys canu, chwarae offeryn ac ymarfer; creu cerddoriaeth yn fyrfyfyr, cyfansoddi a threfnu cerddoriaeth a gwrando ar gerddoriaeth a'i werthuso. Derbynnir swm o arian ar gyfer cyflogi athrawon teithiol. Ar hyn o bryd ceir gwersi telyn, corn a chlarinét. Trefnir hyfforddiant yn yr ysgol. Codir tâl am y gwersi yn unol â pholisi'r ysgol.

Rhoddir cyfle i bob plentyn yn yr Adran Iau ddysgu chwarae recorder. Bydd cyfle i rai ymuno â Cherddorfa'r Cylch.

Bu lle amlwg i waith lleisiol a chanu corawl ym mywyd disgyblion Ysgol O. M. Edwards ers blynyddoedd maith ac rydym wedi cael llawer o lwyddiant yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd, yr Ŵyl Cerdd Dant a Charol yr Ŵyl

Cynhelir Cyngherddau Nadolig a'r Urdd yn y Neuadd bentref lle caiff pob disgybl y cyfle i ymddangos ar y llwyfan.

## DYLUNIO A THECHNOLEG

Prif nodwedd Dylunio a Thechnoleg yw'r ffaith ei fod yn rhoi cyfle i ddisgyblion wireddu a chynrychioli syniadau o'u dychymyg ar ffurf darluniau, cynlluniau, modelau, arddangosfeydd ac efelychiadau cyfrifiadurol. Mae datblygiad syniadau o'r egin cyntaf i'r penllanw fel canlyniad ymarferol yn broses a elwir yn Broses Ddylunio.

Mae'n ofynnol i bob ysgol baratoi a datblygu cynlluniau gwaith yn seiliedig ar ddogfen yr AALl ac yn unol â gofynion y Cwricwlwm Cenedlaethol 2008/10. Bydd y cynlluniau yma'n cynnwys manylion am y cwrs addysg a'r modd y mae'n cael ei weithredu er mwyn sicrhau bod yr addysg a gyfrennir i'r disgyblion yn cyfarfod yn llawn â'r amcanion sydd yn y ddogfen. Mae'n bosibl i rieni weld y cynlluniau hyn, a dogfen yr AALl yn yr ysgol os dymunant, ond rhoi gwybod i'r pennaeth.

Yn gyffredinol yn yr ysgol, fe ddysgir trwy gyfrwng themâu. Mae gennym gylch o themâu, sydd fel rheol yn drawsgwricwlaidd, ond gyda'r pwyslais gan amlaf, naill ai'n wyddonol, ieithyddol neu'n ddyniaethol. Yn CA2 bydd y disgyblion yn aml yn cyfrannu tuag at eu dysgu drwy ymchwiliadau mae ganddynt ddiddordeb ynddo. Mae'r Ysgol yn annog i'r disgyblion fod â meddwl agored a chodi cwestiwn i ymchwilio iddo wrth drefnu themâu.

Fodd bynnag mae rhai elfennau o'r cwricwlwm lle dysgir yn bynciol heb fod â chysylltiad hefo'r thema er mwyn sicrhau ein bod yn cynnwys y cyfan a argymhellir yn y Cwricwlwm Cenedlaethol. Mae mathemateg yn cael ei ddysgu felly, ond am elfennau mathemategol a all godi yn y thema. Mae hefyd rhai elfennau o iaith (Cymraeg a Saesneg) ac o wyddoniaeth lle dysgir yn bynciol ar adegau.

Yn 2020–2021 bydd 102 o ddisgyblion yn yr ysgol.

## CYTUNDEB RHWNG CARTREF AC YSGOL

Mae gofyn i bob ysgol fod â **Chytundeb rhwng Cartref ac Ysgol**. Mabwysiadwyd y cytundeb canlynol:

### O safbwynt yr ysgol:

- ❑ Bydd yr ysgol yn sicrhau y darperir rhaglen addysgu eang a chytbwys, sy'n cwrdd â gofynion y Cwricwlwm Cenedlaethol.
- ❑ Gwneir pob ymdrech i sicrhau bod pob disgybl yn gweithio hyd eithaf ei (g)allu.
- ❑ Gwneir pob ymdrech i baratoi amgylchedd diogel a gofalgar i bob disgybl.
- ❑ Bydd yr ysgol yn darparu gwaith cartref rheolaidd yn dibynnu ar oedran y disgyblion.
- ❑ **Trefniadau Cwynion:** cysylltwch â'r Pennaeth i drafod unrhyw gwynion am y Cwricwlwm Cenedlaethol, Addysg Grefyddol neu Addoliad Cyfunol.

- ❑ Bydd yr ysgol yn:
  - ⇨ darparu gwybodaeth reolaidd i'r rhieni; ac yn gyrru llythyrau a newyddion ar ein gwefan, drwy *eezeetrip* a chyfrif *Facebook*;
  - ⇨ darparu gwybodaeth am ddatblygiad eu plentyn;
  - ⇨ cysylltu ar fyrder ynghylch unrhyw bryderon.
- ❑ Bydd yr ysgol yn rhoi sylw teilwng a phrydlon i unrhyw bryder sydd gan rieni.

**O safbwynt rhieni/gwarcheidwaid:**

Disgwylir i rieni/ gwarcheidwaid:

- ❑ roi pob cymorth a chefnogaeth i'r plentyn gyda'i (h)addysg;
- ❑ gefnogi unrhyw weithgaredd a osodir gan yr ysgol gan gynnwys gwaith cartref;
- ❑ fynychu nosweithiau rhieni a chyfarfodydd sydd wedi'u trefnu ar gyfer trafod datblygiad disgyblion;
- ❑ sicrhau bod y plentyn yn dod i'r ysgol yn brydlon a rheolaidd;
- ❑ sicrhau bod y plentyn yn cydymffurfio â pholisi ymddygiad yr ysgol;
- ❑ annog y plentyn i feithrin hunan barch a pharch at eraill;
- ❑ gysylltu â'r ysgol ar unwaith mewn unrhyw achos o absenoldeb.
- ❑ gofynnir i'r rhieni roddi enwau, cyfeiriad a'u rhifau ffôn, rhag ofn bydd angen cysylltu â hwy yn ystod oriau ysgol e.e. mewn achos o salwch neu drwy ddamwain. Os ydi plentyn yn absennol, gofynnir i rieni ffonio'r ysgol i adael inni wybod.



## GWAITH CARTREF

Mae gennym bolisi gwaith cartref a disgwyliadau i bob blwyddyn fel â ganlyn:

- **Bl. Derbyn, Bl.1 a Bl.2**
  - O bryd i'w gilydd, gosodir tasgau arbennig gan yr athrawes. Fel arfer, bydd y tasgau yn ymwneud â'r thema sy'n cael ei hastudio yn yr ysgol.
  - Weithiau, fodd bynnag, gall yr athrawes osod gwaith unigol er mwyn meistroli neu ymarfer sgil arbennig.
  - Disgwylir i'r holl ddisgyblion yn yr oedran hwn ddarllen yn rheolaidd yn ôl eu gallu.
  - Ni ddisgwylir i'r plant hyn dreulio mwy nag 15 munud y noson ar waith Cartref.
- **Bl.3 a 4**
  - Gosodir Gwaith Cartref rheolaidd i'r disgyblion hyn ar ddydd Gwener. Disgwylir i'r gwaith gael ei gwblhau a'i ddychwelyd i'r ysgol y dydd Llun canlynol. (Mathemateg ac Iaith yn bennaf fydd y gwaith hwn.) Weithiau byddwn hefyd yn defnyddio "Google Classrooms".
  - Disgwylir i'r holl ddisgyblion yn y dosbarthiadau hyn ddarllen yn rheolaidd.
  - Ni ddisgwylir i'r disgyblion dreulio mwy nag 20 munud y noson ar Waith Cartref.
- **Bl.5 a 6:**
  - ⇨ Fel arfer, gosodir Gwaith Cartref unwaith yr wythnos i'r disgyblion hyn: Dydd Iau/Gwener (erbyn dydd Mawrth)
- Gwaith Iaith (Cymraeg neu Saesneg) a Rhifedd fydd hwn yn bennaf.
- Disgwylir i'r holl ddisgyblion yn yr oedran yma ddarllen yn rheolaidd a mynd dros eu tablau.
- Ni ddisgwylir i'r disgyblion dreulio mwy na 30 munud y noson ar Waith Cartref.
- Byddwn weithiau yn defnyddio "Google Classrooms" hefyd.

Darperir ffolder gyda disgrifiad i'r rhieni o waith Cartref y plentyn.

## ORIAU DYSGU

Mae'r oriau a dreulir ar addysgu yn ystod wythnos arferol (heb gynnwys cyd-addoli, cofrestru, cinio ac egwyl) yn 23.5 awr yr wythnos i Bl. Derbyn i Flwyddyn 6.





## 3. Y POLISI ANGHENION ADDYSGOL ARBENNIG

Mae gan yr ysgol bolisi Anghenion Addysgol Arbennig (AAA) a gellir gofyn am weld y polisi llawn yn yr ysgol.

### NOD Y POLISI AAA:

Sicrhau bob pob plentyn yn datblygu'n gorfforol, emosiynol a deallol yn ôl ei allu. I blentyn allu cyfrannu'n llawn i'r gymdeithas y mae'n rhan ohoni, mae'n rhaid ceisio ei arfogi gyda'r cysyniadau, sgiliau a gwybodaeth angenrheidiol. Ymgais yw'r polisi hwn i weithredu'r Côd Ymarfer Anghenion Addysgol Arbennig Cymru. Diben y polisi yw esbonio sut mae'r Corff Llywodraethol yn dehongli'r Côd hwnnw fel bod y gweithdrefnau a'r darpariaethau'n hyrwyddo annibyniaeth disgyblion fel dysgwyr.

### AMCANION Y POLISI AAA:

- Sicrhau cyfle cyfartal cwricwlaidd a chymdeithasol i blant ag AAA.
- Dilynir y Gofynion Statudol parthed Addysg Anghenion Arbennig.
- Gweithredir yn unol ag argymhellion a pholisi'r Awdurdod Addysg Leol parthed AAA.
- Sicrhau bod cyfundrefn yn bodoli yn yr ysgol i adnabod yn gynnar y plentyn sydd ag anawsterau a all fod yn llesteirio ei (h)addysg.
- Casglu gwybodaeth gan athrawon ac eraill i sicrhau y ceir y ddealltwriaeth gorau am natur anawsterau'r plentyn.
- Sicrhau y caiff y ddarpariaeth angenrheidiol ei gwneud ar gyfer disgyblion ag anghenion addysgol arbennig.
- Ceisio sicrhau cydweithrediad a chefnogaeth rhieni, ac eraill mewn perthynas ag adnabod a darparu gwasanaeth.
- Ceisir sicrhau bod integreiddio gyda gweddill y plant cyhyd ag y bo hynny'n bosibl.

## ADNODDAU

Sicrheir bod cyfran o arian yn cael ei wario ar adnoddau AAA. Gall yr adnoddau hyn gynnwys offer a/neu staffio. Gwneir unrhyw ddyraniad o fewn y Cynllun Datblygu Ysgol. Fe ddyrennir arian i gyllideb pob ysgol gan yr Awdurdod Addysg Leol yn unol â fformiwla. Nid yw hyn yn ddigon ar gyfer darparu AAA yn yr ysgol ond fe'i defnyddir i brynu adnoddau ar gyfer AAA. Fodd bynnag, y mae Disgyblion gyda Datganiad yn cael darpariaeth ychwanegol. Derbynnir bod rhoi sylw ychwanegol i ddisgyblion ag AAA yn hollbwysig. Cyllid sy'n rheoli, ond anelir at roi sylw ychwanegol i ddisgyblion gan roi blaenoriaeth fel a ganlyn:

(i) Disgyblion gydag anghenion tymor hir (Cyfnod 3*)

(ii) Disgyblion gydag anghenion tymor canolig (Gweithredu gan yr ysgol a mwy)

(iii) Disgyblion gydag anghenion tymor byr (Gweithredu gan yr ysgol)

Yn ychwanegol, y mae gan yr AALl wasanaeth cynhaliol. Darperir y canlynol ar gyfer cynorthwyo ysgolion i gyflawni eu dyletswyddau gyda phlant gydag anghenion tymor hir:

- Y Gwasanaeth Seicolegol i Ysgolion.
- Athrawon Ymgynghorol sydd â rôl gyffredinol ynghyd â rôl arbenigol ym meysydd nam ar y clyw, nam ar y golwg, nam corfforol a'r Sector Cyn-ysgol.
- Gwasanaeth Lles Addysg.

## ADNABOD, ASESU A DARPAR ANGHENION ADDYSGOL ARBENNIG

- Yn dymhorol byddwn fel staff dysgu yn trafod cynnydd pob plentyn. Os oes pryder yn cael ei fynegi, byddwn yn ystyried rhoi'r disgybl hwnnw/honno ar Gyfnod tymor byr (a elwir yn GWEITHREDU GAN YR YSGOL). Os nad yw'r broblem neu'r pryder yn ddigon i roi'r disgybl ar gam pellach, yna byddwn yn ceisio datrys yr anghenion o fewn y dosbarth trwy waith gwahaniaethol, ond os bydd y pryder yn parhau neu'n cynyddu, fe roir y disgybl ar Gam pellach (a elwir yn GWEITHREDU GAN YR YSGOL A MWY). Cyflwynir adroddiad ysgrifenedig blynyddol i rieni am gynnydd ei blentyn. Asesir plant yn fewnol fel rhan o bolisi asesu'r ysgol. Yn unol â gofynion y Cwricwlwm Cenedlaethol asesir y disgyblion drwy asesiad athro/athrawes ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 1 a 2.
- Mae athrawon yr ysgol yn defnyddio asesu fel rhan o ddysgu dyddiol. Nid yw hyn yn golygu bod profion yn cael eu gosod ar gyfer asesu, ond y mae cynllunio gwersi yn digwydd fel bod tasgau yn cael eu hasesu. Weithiau bydd y tasgau yn wahaniaethol o ran eu natur, dro arall yr ymateb i'r un math o dasg sy'n wahaniaethol. Yn ogystal â hyn edrychir ar un disgybl gwahanol yn ddyddiol gan sylwi yn fanwl sut y mae'n ymdopi â gwahanol agweddau'r cwricwlwm a hefyd beth yw cryfderau a/neu wendidau'r disgybl. Cedwir cofnod bras iawn o hyn. Trwy'r dulliau hyn, ac o bryd i'w gilydd, brofion safonedig, fe obeithir bod pob plentyn yn cael sylw ac yn datblygu i'w llawn botensial ac y byddir yn gallu dod yn ymwybodol o unrhyw broblem neu bryder a all godi yn fuan iawn.

- O dderbyn disgyblion o unrhyw ysgol arall, fe geisir sicrhau bod gwybodaeth am y disgybl yn cyrraedd yr ysgol. Yn yr un modd fe fydd yr ysgol hon hefyd yn trosglwyddo unrhyw wybodaeth berthnasol i unrhyw ysgol lle bydd plentyn yn trosglwyddo iddi.

- Mae trefniadau ar gael i adolygu'r ddarpariaeth AAA os bydd disgybl ar unrhyw gam yn unol â pholisi'r Awdurdod Addysg Leol.
- Yn naturiol, mae barn rhieni yn bwysig iawn wrth adnabod ac mewn unrhyw asesiad o blentyn. Rhoddir pwys ar eu barn a cheisir eu cydweithrediad ymhob achos.
- Pan fo gofyn, yn unol â'r Cam y rhoddwyd disgybl arno, y mae barn asiantaethau eraill hefyd yn hanfodol, a cheisir cydweithrediad yr asiantaethau perthnasol wrth ganfod ac asesu disgyblion AAA.
- **ASESU AR GYFER DYSGU:** Cynhelir nosweithiau agored tymhorol er mwyn i'r rheini weld gwaith eu plant a thrafod eu datblygiad gyda'r athrawon. Mae pob athro / athrawes yn cadw asesiadau manwl am eu plant ac yn trafod y ffordd ymlaen gyda rhieni yn ystod y noson agored. Mae cyfle yma i'r rhieni weld a thrafod targedau'r plant, ac ychwanegu atynt os dymunant. Bydd y disgyblion yn cytuno ac yn llofnodi'r targedau gyda'r athro wedi'r cyfarfod. Cynhelir tri chyfarfod lle gall rhieni ddod i drafod datblygiad eu plant gyda'r athro.

## 4. POLISI AMDDIFFYN PLANT

- Mae gan yr Ysgol Bolisi Amddiffyn Plant sy'n seiliedig ar Ganllawiau Amddiffyn Plant Y Gymru Gyfan a dilynir y canllawiau hynny ymhob achos. Mae arweiniad gan yr Adran Addysg a'r Cynulliad Cymreig yn dangos yn glir bod gan ysgolion ran bwysig i chwarae mewn amddiffyn plant rhag eu cam-drin. Mae ganddom ni fel ysgol ddyletswydd felly i gyfeirio unrhyw gonsyrn am gyflwr y plant i'r Adran Gwasanaethau Cymdeithasol.
  **Person Dynodedig Amddiffyn Plant:** Dilys Ellis-Jones, Pennaeth/Dirprwy Siôn Tudor Jones.

- **TREFN DIOGELU PLANT:** Mae pob aelod o staff yr ysgol hon yn gyfrifol am ddiogelu ac amddiffyn y plant sy'n ei mynychu. Os ceir pryderon ynglŷn ag esgeulustra neu gam-drin corfforol, emosiynol neu rywiol, yna mae'n ddyletswydd ar y staff, yn unol â Threfn Diogelu Plant y Sir, i sôn am y mater wrth Gyd-gysylltydd Diogelu Plant yr Ysgol. Gall Cyd-gysylltydd yr ysgol ymgynghori â chyd-weithwyr proffesiynol yn ogystal ag asiantaethau perthnasol megis y Gwasanaethau Iechyd a Chymdeithasol. Yn dilyn y trafodaethau hyn, efallai y bydd rhaid i Gyd-gysylltydd yr Ysgol gyfeirio'r plentyn yn swyddogol i'r Adran Gwasanaethau Cymdeithasol Y Sir, yn unol â chanllawiau a phrotocol y sir. Yr Adran Gwasanaethau Cymdeithasol sy'n penderfynu a oes angen gweithredu neu beidio. Oblegid natur y cyhuddiadau, ni fydd bob amser yn briodol i drafod materion gyda'r rhieni cyn cyfeirio'r plentyn. Y Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Heddlu sy'n gyfrifol am ymchwilio i gyhuddiadau. Y Pennaeth, Dilys Ellis-Jones, yw Cyd-gysylltydd Diogelu Plant yr Ysgol; hefyd, Llŷr Edwards, aelod o'r corff llywodraethol. Ef yw'r person dynodedig ar ran y Llywodraethwyr.

## 5. TREFNIADAU AR GYFER GWNEUD CWYNION AM Y CWRICWLWM

- Mae'r Awdurdod Addysg Leol, yn unol â gofynion statudol, wedi sefydlu trefn i ystyried cwynion am y modd y mae cyrff llywodraethu'r ysgolion a'r Awdurdod Addysg yn gweithredu mewn perthynas â chwricwlwm ysgol a materion eraill cysylltiedig. Mae'r drefn hon wedi ei hamlinellu mewn dogfen bwrpasol yn y Gymraeg a'r Saesneg sydd ar gael i unrhyw riant sy'n dymuno gwneud cwyn dan y trefniadau hyn, a gall yr Awdurdod ddarparu copi mewn iaith heblaw'r Gymraeg a'r Saesneg os bydd hynny'n angenrheidiol. Pwysleisir, fodd bynnag, y gellir ymdrin â llawer o gwynion yn gyflym ac effeithiol drwy ystyriaeth anffurfiol yn seiliedig ar drafodaethau gyda'r Pennaeth. Hwn yw'r cam rhesymol cyntaf, a bydd y Corff Llywodraethu'n disgwyl bod y cam yma wedi ei gyflawni cyn cyflwyno'r gŵyn yn ffurfiol mewn achosion eithriadol.

- Dylid cysylltu â'r ysgol i wneud apwyntiad i drafod unrhyw gŵyn gyda'r Pennaeth.

- Atgoffir rhieni ei bod yn bosibl gweld copïau o unrhyw offeryn statudol a chylchlythyron a anfonir i ysgolion gan y Swyddfa Gymreig ynghylch pwerau a dyletswyddau cyrff llywodraethu o dan Bennod 1 Rhan 1 Deddf Diwygio Addysg.

## 6. GWEITHDREFNAU CWYNO CYRFF LLYWODRAETHU YSGOLION

Mae'r gweithdrefnau hyn yn cael eu rheoli gan Gylchlythyr Cynulliad Cenedlaethol Cymru Rhif: 03/2004.

- Os oes unrhyw un am wneud cwyn swyddogol yn erbyn aelod o'r staff, dylid gwneud hynny'n ysgrifenedig i'r Pennaeth.
- Os oes unrhyw un am wneud cwyn swyddogol yn erbyn y Pennaeth, dylid gwneud y gŵyn yn ysgrifenedig i Gadeirydd y Corff Llywodraethol.
- Os oes unrhyw un am wneud cwyn swyddogol yn erbyn aelod o'r Corff Llywodraethol dylid gwneud hynny'n ysgrifenedig i Gadeirydd y Corff Llywodraethol (neu i'r Is-gadeirydd os yw'r gŵyn yn erbyn y Cadeirydd).

Mae Polisi Cwynion yn yr ysgol y gellir gofyn am ei weld.

## 7. CYNNWYS A THREFNIADAETH Y POLISI ADDYSG RHYW

Gelwir Polisi Addysg Rhyw'r ysgol bellach yn 'Bolisi Addysg Bywyd a Pherthnasoedd'.
(Defnyddir y rhaglen DVD 'SENSE' gyda'r disgyblion ac adnoddau a gafwyd gan dîm Ysgolion Iach Gwynedd ar gyfer Addysg Bywyd.)
Mae'r amcanion fel a ganlyn:

- Dysgu am gylch bywyd.
- Cadw'r disgyblion yn ddiogel trwy eu cynorthwyo i adnabod ac ymateb i ymddygiad annerbyniol gan oedolion a phlant eraill.
- Cynorthwyo'r disgyblion i ddod yn ymwybodol o wahanol sefyllfaoedd bywyd gan bwysleisio pwysigrwydd moesoldeb.
- Cynorthwyo'r disgyblion i siarad am faterion sy'n ymwneud â'r corff heb embaras.
- Darparu gwybodaeth am:
  - berthynas gariadus;
  - enwau rhannau'r corff;
  - cyffyrddiad priodol ac amhriodol;
  - newidiadau'r glasoed;
  - tyfiant baban yn y groth a genedigaeth;
  - anghenion babanod a chyfrifoldebau rhieni.
- Cychwyn paratoi'r disgyblion am y penderfyniadau y byddant yn eu gwneud yn y dyfodol a'r profiadau y maent yn debyg o'u hwynebu.
- Cynorthwyo'r disgyblion i addasu i newidiadau yn y teulu.
- Cynorthwyo'r disgyblion i ddeall eu teimladau nhw eu hunain a theimladau pobl eraill.
- Dysgu'r disgyblion i barchu eu hunain ac eraill.

Atgoffir rhieni y gallant dynnu eu plant yn ôl o'r cyfan neu ran o'r addysg rhyw a ddarperir.

## 8. ADDYSG GREFYDDOL A CHYDADDOLI A DDARPERIR YN YR YSGOL

Nid yw'r ysgol hon yn dal cysylltiad uniongyrchol a ffurfiol ag unrhyw enwad crefyddol.
Y mae'r addysg grefyddol a gyflwynir yn seiliedig ar faes llafur cydnabyddedig yr Awdurdod . Gellir archwilio copi o'r maes llafur hwn yn yr ysgol.

**Mae cyd-addoliad yn digwydd yn ddyddiol yn yr ysgol fel a ganlyn:**

| | | |
|---|---|---|
| Bore Llun: | 9.00 - 9.15 | i'r ysgol gyfan |
| Bore Mawrth: | 9.00 - 9.15 | i'r ysgol gyfan |
| Bore Mercher: | 9.00 - 9.15 | i'r ysgol gyfan |
| Bore Iau: | 9.00 - 9.10 | yn y dosbarthiadau unigol |
| Bore Gwener: | 9.00 - 9.15 | i'r ysgol gyfan |

Bydd y gwasanaethau hyn yn Gristionogol yn bennaf, ond tynnir sylw at gredoau eraill o bryd i'w gilydd. Byddwn hefyd yn gwahodd aeoldau o'r gymdeithas atom o bryd i'w gilydd.

Gellir gwneud trefniadau ar gyfer plant nad yw eu rhieni am iddynt fynychu'r gwasanaethau crefyddol neu astudiaethau cyffelyb.

## 9. ETHOS A GWERTHOEDD YR YSGOL

Y mae a wnelo addysg yn bennaf ag unigolion, a rhaid felly gofalu bod y plentyn unigol yn cael cyfle i ddatblygu yn ôl ei allu a'i oed, heb anghofio meithrin doniau a diddordebau arbennig.

Ond nid digon yw pwysleisio'r unigolyn, oherwydd y mae pawb ohonom yn rhan o Gymdeithas a chenedl, ac y mae i'r gymdeithas a'r genedl eu gofynion, dyheadau a diwylliant unigryw sy'n mynd i lywio rhywfaint ar amcanion yr addysg a gynigir. Pwysleisir pwysigrwydd unigolyn, cymdeithas a chenedl yn natganiad Cyngor Gwynedd (Polisi Cwricwlwm yr Ysgol Gynradd):

> *'Pwrpas cyfundrefn addysg yw creu sefyllfaoedd a chyflenwi adnoddau fydd yn galluogi pob plentyn i dyfu yn bersonoliaeth lawn, i ddatblygu ac ymarfer ei holl ddoniau, fydd yn darparu ar ei gyfer yn ôl oedran, gallu, a diddordeb, ac yn ei gymhwyso i fod yn aelod cyfrifol o gymdeithas ddwyieithog, yn aelod a fydd yn gallu cyfrannu iddi a derbyn oddi wrthi, a byw mewn heddwch a brawdgarwch gyda'i gyd-ddyn.'*

**Gellir nodi amcanion yr ysgol fel a ganlyn:**

- Creu sefydliad fydd yn gallu gweithredu amcanion cyffredinol yr Awdurdod Addysg a chyflawni gofynion statudol ac anstatudol y Cwricwlwm Cenedlaethol.

- Creu amgylchiadau ffafriol ar gyfer datblygiad llawn y plentyn fel unigolyn; tyfiant personol iach; datblygiad corfforol a meddyliol; datblygiad esthetig; cymdeithasol; ysbrydol; deallusol a moesol.

- Meithrin hunanddisgyblaeth, hunan-barch a hunanhyder y plant.

- Darparu cyfle llawn i blant ddatblygu eu doniau, eu talentau a'u diddordebau; i ddod i adnabod eu hunain ac i ddeall rhywbeth am eu gwendidau a'u cryfderau.

- Datblygu sgiliau plant ar draws ystod eang o feysydd, gan gynnwys sgiliau oriau hamdden.

- Creu yn yr ysgol amgylchedd fydd yn symbylu gwerthfawrogiad o'r cain a'r prydferth. Meithrin yn y plant falchder at eu bro a'u gwlad a datblygu ynddynt barch at y byd y maent yn byw ynddo — yn gyffredinol ac yn arbennig yng nghyd-destun eu bro a'u hamgylchedd.

- Meithrin yn y plant sensitifrwydd yn eu perthynas ag eraill drwy sicrhau eu bod yn deall natur eu cymdeithas, yn gwybod am hawliau pobl eraill a'u cyfrifoldebau eu hunain, yn parchu eu cyd-ddinasyddion ac yn sylweddoli eu gwerth a'u lle yn y gymdeithas honno a'u cyfraniad personol iddi hi.

# CYNLLUNIAU

## YSGOL IACH

Mae Ysgol O.M.Edwards yn rhan o Gynllun Ysgol Iach Gwynedd ac wedi derbyn anrhydedd CAM 5 (Hydref 2018) a Cam 6 (2020). Prif amcanion y cynllun yw:

- Datblygu agwedd gadarnhaol ysgol-gyfan tuag at fwyd a maeth a sicrhau bod bwyta'n iach yn cael ei hyrwyddo
- Datblygu'r ysgol fel man gwaith sy'n hyrwyddo iechyd cymdeithasol, corfforol ac emosiynol pob aelod o staff
- Atgyfnerthu hunan werth a hyrwyddo iechyd meddwl yr holl ddisgyblion
- Dangos ymrwymiad i wella amgylchedd yr ysgol, er hyrwyddo iechyd a lles holl gymuned yr ysgol
- Sicrhau cynlluniau tymor hir sy'n rhoi cyfle i bob disgybl gymryd rhan mewn gweithgareddau corfforol yn gyson
- Sicrhau bod yr ysgol gyfan yn amgylchedd di-fwg, sy'n pwysleisio manteision peidio ysmygu
- Sicrhau fod gan yr ysgol Bolisi Atal Cyffuriau a gefnogir gan raglen addysg a gynlluniwyd ar gyffuriau ac alcohol
- Dangos ymrwymiad i Addysg Rhyw a Pherthnasoedd trwy feddu ar Bolisi a rhaglen addysg a gynlluniwyd
- Sicrhau bod yr ysgol yn ystyried diogelwch yn flaenoriaeth gan weithredu'n rhagweithiol yn hytrach nag yn adweithiol.

**YSGOL ECO:** (Derbyniodd yr Ysgol ail faner platinwm Eco Ysgol 2017 a 2020, y gyntaf yng Ngwynedd i'w derbyn.

Mae'r Ysgol O.M.Edwards yn pwysleisio'r angen i fod yn Eco-gyfeillgar. Mae hyn yn cynnwys:

- Ail-gylchu papur, adnoddau, dillad
- Creu compost o wastraff cegin
- Addysgu'r disgyblion i godi eu cynnyrch gardd eu hunain,
- Tyfu llysiau a ffrwythau yn y tŷ gwydr
- Casglu sbwriel.
- Monitro defnydd o ddŵr, trydan, gwres a phaneli solar

## MASNACH DEG

Mae ysgol O.M.Edwards yn rhan o Ymgyrch Masnach Deg. Yr amcan ydi addysgu'r disgyblion bod cynhyrchwyr – ble bynnag y bônt yn haeddu pris teg am eu cynnyrch. Gwneir hyn trwy:

- Bwysleisio pwysigrwydd cynnyrch lleol – ymweliadau a siopau'r Bala.
- Bwysleisio bod cynnyrch Masnach Deg i'w cael mewn siopau a bod eu prynu yn sicrhau gwell amodau byw i'r cynhyrchwyr
- Ddefnyddio cynnyrch Masnach Deg yn yr ysgol pan fyddwn yn gallu e.e. Ffrwythau yn y bore, coginio yn y dosbarthiadau gyda'r disgyblion, a gwahodd siaradwyr i'r Ysgol.
- Dynnu sylw rhieni a'r gymuned leol o gynnyrch Masnach Deg.
- Bwrdd hysbysu Masnach Deg yn yr Ysgol.

## GOFAL BUGEILIOL:

Rhoddir pob plentyn yng ngofal athro/athrawes arbennig, ond ceisia'r staff cyfan ymorol am les yr holl ddisgyblion. Mae'r ysgol hon yn annog plant i fod yn hunan-ddisgybledig, yn gyfrifol ac i barchu eraill. Gwyddom y cawn gefnogaeth rhieni yn hyn o beth. Mae disgyblion wedi eu dewis i fod yn 'Ffrindiau amser chwarae' i'r plant lleiaf.

### Cyngor yr Ysgol

Yn unol â chanllawiau Cynulliad cenedlaethol Cymru, mae gan yr Ysgol Gyngor Ysgol. Cynhelir cyfarfod o'r cyngor oddeutu 6 gwaith yn ystod y flwyddyn addysgol. Rydym fel Ysgol yn croesawu hyn fel modd o roi llais i'r disgyblion ym mywyd yr ysgol.
Bydd y disgyblion yma yn cymryd rhan ar bwyllgor Eco ysgolion hefyd.

- **Cydraddoldeb Hiliol:**
  Mae gan yr ysgol Bolisi Cydraddoldeb Hiliol a gellir ei weld yn yr ysgol.

- **Disgyblaeth:**
  Disgwylir i bob plentyn ymddwyn yn dderbyniol ac fel aelod o gymdeithas o fewn yr ysgol. Fe'u hanogir i ystyried, ac i barchu hawliau ac eiddo pobl eraill. Bydd unrhyw gosb a weinyddir yn rhesymol ac yn unol â chanllawiau'r Awdurdod Addysg. Mae'r ysgol yn hybu hunan ddisgyblaeth yn unol â nodau ac amcanion yr ysgol. Rydym yn ystyried fod llais y dysgwr yn bwysig.

  Mae polisi Awdurdod Addysg Gwynedd ar ddisgyblaeth mewn ysgolion yn rheoli'r ffordd y disgyblir plant yn yr ysgol hon. Y mae gennym hefyd bolisi Dalgylch ar Ddisgyblaeth ynghyd â Strategaeth Hyrwyddo Ymddygiad Da. Mae'r Ysgol yn ymwneud ar gynllun Webster Stratton i hybu ymddygiad da.

- **Cyswllt â'r cartref:**
  Ni all yr ysgol lwyddo heb gefnogaeth y rhieni. Yr ydym felly yn eich annog i ymddiddori yn addysg eich plant ac i fod yn gefn i'r ysgol yn ei gwaith ac yn ei gweithgareddau cyhoeddus. Yn wir y mae gennym gynllun sy'n rhoi cyfle i rieni a chyfeillion ddod i mewn i gynorthwyo'r ysgol yn y dysgu (gwrando darllen a thrafod yn Saesneg) mae gennym rai sy'n gwneud hynny ac rydym yn hynod ddiolchgar iddynt am eu hymroddiad ac o roi o'u hamser.

  **Gall unrhyw riant sy'n dymuno trafod unrhyw agwedd ar addysg eu plant drefnu i wneud hynny trwy gysylltu â'r Pennaeth [er bob ychydig o newid i'r drefn oherwydd Covid19].**



- **Iechyd a Diogelwch:**

Mae diogelwch plant yn hanfodol bwysig. Gwneir pob ymdrech i sicrhau eu bod yn ddiogel ar bob achlysur. Mae system diogelwch mewn grym yn yr ysgol sydd yn cydymffurfio â rheolau tân. Mae'n rhaid i bob ymwelydd fynd i'r brif fynedfa a chanu'r gloch. Mae'r ysgol yn arolygu trefniadau iechyd a diogelwch ar gyfer disgyblion a staff yn gyson.

Mae'n orfodol i ymwelwyr gofrestru eu hymweliad wrth gyrraedd yr ysgol. Rhoddir cerdyn adnabod i ymwelwyr gan y Pennaeth. Mae system ddiogelu yn yr ysgol a chamerâu CCTV sydd yn recordio 24 awr o'r dydd.

Os bydd ymwelwyr yn ymddwyn yn anaddas tuag at ddisgybl neu aelod o'r staff yna gofynnir iddynt adael campws yr ysgol ar unwaith a chysylltir â'r heddlu pan fo hynny'n briodol. Mae gan yr ysgol system larwm lladron a cheir ymarferion tân yn dymhorol.

Mae 2 neu 3 aelod o staff bob amser ar ddyletswydd yn ystod amser chwarae ac mae goruchwyliaeth yn ystod amser cinio yn ogystal.

Ni chaniateir cŵn ar safle'r ysgol hyd yn oed ar dennyn; gwneir eithriad o gŵn tywys. Gwneir asesiadau risg yn unol â Pholisi Iechyd a Diogelwch yr ysgol.

**Ceir system newydd i arwyddo ar iPad yn y cyntedd wrth fynd i mewn i'r ysgol.**

- **Diogelwch – Polisi Bwlian**

Mae hawl sylfaenol gan holl aelodau'r ysgol gael eu parchu gan bawb ac i brofi bywyd hapus yn yr ysgol. Mae unrhyw fath o fwlian yn hollol annerbyniol. Mae'r ysgol yn ymateb yn gadarn ac yn drylwyr i bob achos o fwlian. Gwnaiff yr ysgol bob ymdrech i sicrhau nad yw bwlian yn digwydd. Mae Cyngor yr Ysgol yn cyfarfod yn gyson gyda'r Pennaeth ac yn trafod unrhyw faterion sy'n effeithio ar eu hawliau fel unigolion.

Mae disgyblion wedi creu llyfryn polisi 'Atal Bwlio' hefyd.

- **Meddygol:**

Nid ydym fel arfer yn rhoi ffisig i ddisgyblion yn yr ysgol. Eithriadau i hyn yw:

  - pwmp asthma
  - unrhyw feddyginiaeth cwbl angenrheidiol
  - rhoi ffisig gwrthfiotig pan fo gofyn am ei roi 4 gwaith y dydd.

Os bydd gofyn inni roi meddyginiaeth sy'n disgyn i un o'r 2 categori cyntaf, mae'n ofynnol i'r ysgol greu CYNLLUN GOFAL IECHYD UNIGOL AR GYFER DISGYBL GYDAG ANGHENION MEDDYGOL. Bydd hwn yn cael ei lunio ar y cyd rhwng rhieni/ gwarcheidwaid, nyrs ysgol ac athrawon yr ysgol.

Os oes angen i athrawon roi ffisig gwrthfiotig gofynnir i rieni/gwarcheidwaid **arwyddo llythyr** yn rhoi caniatâd i ni wneud hynny (athrawon i gadw cofnod ohono).

Ni ddylai disgyblion ar unrhyw gyfrif gymryd unrhyw ffisig eu hunain oni bai bod hynny wedi ei nodi yn y CYNLLUN GOFAL IECHYD UNIGOL (e.e. pwmp asthma)

Os bydd plentyn yn sâl neu mewn damwain cysylltir â'r rhieni, yna, os bydd angen, fe awn â'r plentyn i'r feddygfa yn y Bala.

SYLWER: Trefniadau rhag Covid19 — gweler llythyr a threfniadau dechrau tymor Medi 2020.

## GWEITHGAREDDAU ALLGYRSIOL:

- Mae'r ysgol yn cynnig gwersi Cerddoriaeth Offerynnol telyn, gwersi canu, offerynnau chwyth neu offerynnau pres. Bydd yr offerynnau ar fenthyg i'r disgyblion am ddim ond codir tâl am y gwersi hyn yn unol â pholisi'r Awdurdod Addysg .
- Bydd yr ysgol yn cymryd rhan flaenllaw yng ngweithgareddau'r Urdd dan enw "Adran Llanuwchllyn" gan gystadlu yn yr Eisteddfod yn y cystadlaethau llwyfan, (llefaru, canu, cerdd dant, dawnsio gwerin, dawnsio disgo) gymnasteg, celf a dylunio, adran llenyddiaeth a gwyddoniaeth ar brydiau ac yn y cystadlaethau pêl-droed, pêl-rwyd a rygbi. Bydd cyfeillion yr ysgol a rhieni yn cynorthwyo i ddysgu'r plant ac i redeg yr Adran ar y cyd gyda'r athrawon.
  Cynhelir dwy Adran:
  - Adran Iau sy'n cwrdd bob pythefnos yn ystod Tymor yr Hydref a'r Gwanwyn ar Nosweithiau Mercher o 3.30 - 4.30 i ddisgyblion o Bl 3 - 5. (Wedi'i atal ar hyn o bryd.)
- Fel arfer trefnir Trip Blynyddol i'r Ysgol gyfan yn ystod Tymor yr Haf.
- Fel arfer trefnir Penwythnos mewn Canolfan (fel Glan-llyn, Llangrannog, Plas Tan-y-bwlch) i ddisgyblion Bl. 5 a 6 ac rydym ar brydiau yn mynychu canolfannau addysgol eraill yn ystod yr wythnos.
- Rydym yn trefnu ymweliadau addysgol yn ymwneud â gwahanol feysydd y cwricwlwm yn achlysurol, Oriel gelf, amgueddfa, Llyfrgell Genedlaethol, ac ati.
- **Addysg Gorfforol**
  Nod: Mae'r ysgol yn darparu amgylchedd sy'n symbyliad ac yn ddiogel i ddisgyblion lle gallant weithio tuag at aeddfedrwydd cyffredinol wrth ddatblygu sgiliau corfforol. Darperir gweithgareddau sy'n rhoi mwynhad i'r disgyblion wrth ddiwallu eu hanghenion creadigol. Byddwn yn dysgu a darparu cyfle i ymarfer a gwella ar sgiliau sy'n berthnasol i'r gweithgaredd.

  Yr ydym hefyd yn ceisio datblygu ymwybyddiaeth gymdeithasol ynghyd â hyfforddiant cymdeithasol drwy fynegiant unigol. Ceisir hybu hyder trwy weithgaredd corfforol a chreu ymwybyddiaeth a phwysigrwydd iechyd wrth ymarfer.

  Bwriadwn i Addysg Gorfforol fod yn fwynhad fel bydd y disgyblion yn ymddiddori ac yn barod i gymryd rhan mewn gweithgareddau corfforol amrywiol. Drwy hynny gobeithiwn ddatblygu ymwybyddiaeth a gwerthfawrogiad o'r amgylchedd.

  Mae'r ysgol yn hyfforddi'r plant mewn amryw o weithgareddau gan gynnwys gymnasteg, dawns, gemau, nofio, athletau a gweithgareddau antur a hwylio yng Nglan-llyn. Yn y blynyddoedd cynnar, ac yng Nghyfnod Allweddol 1, mae pob plentyn yn cael 1-2 awr yr wythnos o wersi Addysg Gorfforol. Erbyn Cyfnod Allweddol 2 mae'r plant yn treulio o leiaf awr a hanner bob wythnos mewn gwersi Addysg Gorfforol. Rydym yn cyflogi Euros Jones yn wythnosol i roi gwersi rygbi a chwaraeon i blant CA2 sy'n ychwanegu at y ddarpariaeth. Yn ogystal â hyn mae yna ddigon o gyfleoedd i'r plant fynychu sesiynau hyfforddiant ychwanegol yn wythnosol ar ôl oriau ysgol. Cynhelir rhai gweithgareddau yma ar gaeau'r ysgol a'r cwrt tenis a phêl-rwyd, neu ym mhwll nofio Canolfan Y Bala. Mae cyfle i ddisgyblion fynychu gwersi nofio, golff, rygbi, pêl-droed, karate, pysgota, gymnasteg a dawns yn y Bala.

Mae gan yr ysgol dimau sy'n rhoi cyfle i'r plentyn gystadlu yn unigol ac fel aelod o dîm.

**Mae'r timau'n cynnwys:**

Timau pêl-droed, merched a bechgyn, sy'n cystadlu yng nghystadlaethau'r Urdd a Chwaraeon Sirol.

Timau pêl-rwyd sy'n cystadlu yng nghystadlaethau Cymdeithas Pêl-rwyd yr Urdd (Pencampwyr Cymru 2015).

Timau rygbi, sy'n cystadlu yng nghystadleuaeth yr Urdd neu Sirol.

Timau nofio sy'n cystadlu yng Ngalâu'r Urdd a Chymdeithas Chwaraeon y Cylch.

Timau rhedeg traws gwlad sy'n cystadlu ym mhencampwriaethau'r Urdd a Chymdeithas Chwaraeon 'Clwb Dal i Fynd' y dalgylch.

Tîm Criced a Thenis sydd yn cymryd rhan yn flynyddol yn y cystadlaethau a drefnir ar eu cyfer.

Timau athletau sy'n cystadlu yn Nolgellau yn flynyddol.

Yn ogystal â hyn ym mlynyddoedd 5 a 6 rhoddir cyfle i'r plant fynychu canolfannau preswyl sy'n canolbwyntio ar weithgareddau awyr agored megis Glan-llyn a Phlas Tan y Bwlch a Chanolfan yr Urdd, Llangrannog.

- Bydd Cyngerdd Nadolig yn cael ei gynnal yn flynyddol gan yr ysgol.
- Anogir y disgyblion i gystadlu yn y Cyfarfodydd Cystadleuol lleol ac yn Eisteddfod Llanuwchllyn. Bydd disgyblion yn cystadlu yn y cystadlaethau llenyddol a chelf ac anogir y plant i gystadlu mewn adrodd a chanu trwy gynorthwyo'r plant i ddysgu'r darnau ar gyfer yr eisteddfod.
- Mae plant yr ysgol yn mynychu ac yn cymryd rhan mewn Gwasanaeth Diolchgarwch yn flynyddol. Rydym hefyd yn cymryd rhan yng Ngwasanaeth Sul yr Urdd Penllyn yn flynyddol.
- **Ni all yr ysgol dderbyn cyfrifoldeb am oruchwylio plant ar derfyn sesiynau'r gweithgareddau uchod, a gofynnir i rieni sicrhau eu bod yn gwneud trefniadau i hebrwng y plant adref.**

## GWISG YSGOL:

- Mae'r ysgol hon, wedi ymgynghori â'r rhieni, wedi penderfynu cael gwisg ysgol ffurfiol a disgwylir i bawb ei gwisgo. Mae'r manylion fel a ganlyn:
  Crys polo coch gyda logo'r ysgol arno / Crys chwys gwyrdd gyda logo'r ysgol arno /
  Trowsus du (neu sgert ddu) / Esgidiau du i fechgyn a merched.

  Gellir prynu'r crys polo a'r crys chwys ar wefan **Cwmni Brodwaith** a **Tesco**.
  Yn yr haf gall merched ddewis gwisgo ffrog goch neu wyrdd patrwm siec, a'r plant hynaf i gael siorts du.
- Ar gyfer gwersi Addysg Gorfforol, gofynnir i'r disgyblion fod â chrys T gwyn, shorts du, pymps neu treinars a gwisg nofio ar gyfer gwersi nofio. Anogir y bechgyn i wisgo 'trunks' nofio pwrpasol, dim 'shorts' hir; a phob plentyn CS i adael pâr o esgidiau glaw yn yr ysgol.
- Gofynnir i bob plentyn yn CA2 fod â ffedog/neu hen grys T yn yr ysgol ar gyfer gwersi Celf a chrefft.
- Er mwyn hwylustod, mae'n hanfodol bod gan bawb eu **henwau** ar y dillad.

## 10. DEFNYDDIO'R GYMRAEG A'R SAESNEG

Credwn fod gan holl blant yr ysgol hon hawl i dyfu yn ddinasyddion dwyieithog.
Parchwn famiaith pob disgybl a cheisiwn eu hannog i ddatblygu eu hyfedredd yn eu hail iaith, boed honno yn Gymraeg neu'n Saesneg.

Mae nodau ieithyddol yr ysgol hon yn unol â nodau Polisi Dwyieithog yr Awdurdod Addysg.

**Gweithredir y polisi drwy:**

- Sicrhau yn y dosbarth derbyn, trwy ddarpariaeth a threfniadaeth feithrin bwrpasol a sensitif, y rhoddir i bob plentyn sylfaen gadarn yn y Gymraeg er mwyn ei (g)alluogi i gyrraedd y nod o ddwyieithrwydd llawn maes o law. Gyda mynediad y Cwricwlwm i Gymru, byddwn yn annog ymwybyddiaeth o wahanol ieithoedd, ac yn gobeithio i Fl. 5 a 6 gael blas ar Ffrangeg.
- Adeiladu ym mlynyddoedd 1 a 2 ar y sylfaen a osodwyd i'r Gymraeg drwy addysg feithrin, cadarnhau a datblygu mamiaith y plentyn o ddysgwr Cymraeg ac ymestyn gafael y plentyn o gartref Cymraeg ar y Saesneg.
- Yng Nghyfnod Allweddol 2, cadarnhau a datblygu Cymraeg a Saesneg pob plentyn yn eu holl agweddau goddefol a gweithredol, er mwyn sicrhau ei fod/bod yn gallu siarad, darllen ac ysgrifennu'n rhwydd a hyderus yn y ddwy iaith pan fo'n trosglwyddo i'r ysgol uwchradd.
- Y Gymraeg yw iaith gyfathrebol yr ysgol hon.
  Fe'i defnyddir:
  - yng ngweinyddiad dydd i ddydd yr ysgol
  - fel yr iaith achlysurol (tu allan i sesiynau dysgu)
  - fel iaith gwasanaethau boreol a chynulliadau torfol.
- Derbyniwyd Wobr Aur Siarter Iaith yn 2020.

Y Gymraeg fydd prif iaith cyfrwng y dysgu – yn cyflwyno ac yn cofnodi – ar draws y cwricwlwm.

Cyflwynir y Saesneg yn raddol yn y Cyfnod Sylfaen ac yna cynyddir ei defnydd yn gyson trwy Gyfnod Allweddol 2 i gyflwyno a chofnodi – fel y disgwylir y gall pob plentyn ei defnyddio'n hyderus i ymwneud ag amrywiol feysydd y cwricwlwm erbyn Bl. 6.

## 11. GWYBODAETH AM DDERBYNIADAU

Gall unrhyw riant sydd eisiau i'w plentyn/plant gael eu derbyn i'r ysgol gysylltu â'r Pennaeth fel y gellir trefnu i ymweld â'r ysgol.
Gall unrhyw riant ddod i drafod gyda'r Pennaeth ynglŷn ag unrhyw agwedd ar y polisi mynediad ond trefnu hynny ymlaen llaw.

**CYFLE CYFARTAL** (Gweler cynllun cydraddoldeb yr Ysgol ar gael gan y Pennaeth)

Prif athroniaeth ac amcan yr ysgol yw bod gonestrwydd, urddas a gwerth pob unigolyn o'r pwysigrwydd mwyaf. Ymdrechir i roi cyfle cyfartal i bob disgybl ac athro/athrawes ar bob adeg heb wahaniaethu ar sail rhyw, crefydd, lliw, iaith nac anabledd.

Yr aelod staff sydd yn gyfrifol am hybu datblygiad addysgiadol plant mewn gofal yw Dilys Ellis-Jones, y Pennaeth. (Gweler polisi'r ysgol ar gyfer plant mewn gofal, 2020.)

### DISGYBLION AG ANABLEDDAU / CYNLLUN HYGYRCHEDD

Mae cynllun yr ysgol yn sicrhau mynediad rhwydd i ddisgyblion a rhieni sydd ag anableddau. Gwneir trefniadau arbennig rhwng yr ysgol a'r cartref pan fo disgybl sydd ag anableddau neu Anghenion Dysgu Ychwanegol yn cychwyn yn yr ysgol. Cysyllter â'r pennaeth am ragor o fanylion. Mae'r ysgol yn sensitif i anghenion disgyblion sydd ag anableddau ac yn gwneud pob ymdrech i'w cynnwys ym mhob agwedd o fywyd a gwaith yr ysgol Gymraeg. Mae un toiled wedi ei addasu yn yr ysgol i hyrwyddo anghenion disgyblion sydd ag anableddau.

### GWASANAETHAU CEFNOGOL

Bydd y nyrs a'r deintydd yn ymweld â'r ysgol yn achlysurol.

Gelli'r cael sgwrs gyda'r nyrs ar unrhyw adeg drwy ffonio Iola Jones, nyrs Ysgol, yn Ysgol y Berwyn.

Gellir cyfeirio plentyn i sylw'r Therapydd Lleferydd ar gais Prifathro.

Gofynnir yn garedig i'r rhieni hysbysebu'r ysgol am unrhyw anabledd all amharu ar ddatblygiad y plentyn.

Cyflwynir cyfres o wersi Medrusrwydd Beicio i'r plant hŷn ym mlwyddyn 5 a 6.

### TYWYDD GARW

Gwneir pob ymdrech i gadw'r ysgol ar agor. Os ydych yn ansicr, cadwch y plentyn gartref neu ffoniwch yr ysgol. Weithiau bydd angen anfon y plant gartref yn gynnar ond byddwn yn ffonio'r cartref yn gyntaf. Weithiau fe fydd y cwmni tacsi yn ffonio'r ysgol i ddweud os byddant yn cludo'r plant adref yn gynnar oherwydd tywydd drwg a'r ffordd yn beryglus.

## 12. SYMUD I'R YSGOL UWCHRADD

Ysgol y Berwyn, Y Bala yw'r ysgol Uwchradd leol. Mae cyswllt pontio Cynradd/Uwchradd cryf rhwng yr ysgol hon ac Ysgol y Berwyn.

Er mwyn sicrhau bod y trosglwyddiad o'r ysgol gynradd i'r uwchradd yn un mor hwylus â phosibl, gwnaed y trefniadau a ganlyn:

- Bydd disgyblion Blwyddyn 6 a'u rhieni yn cael gwahoddiad i noson agored yn Ysgol y Berwyn yn ystod Tymor yr Hydref i gwrdd â'r athrawon a disgyblion.
- Bydd athrawes sy'n gyfrifol am Flwyddyn 7 (Miss Delyth Humphreys) yn ymweld â'r ysgolion cynradd yn y dalgylch i siarad hefo'r disgyblion a'u rhieni/gwarcheidwaid ac ateb unrhyw gwestiwn all godi.
- Bydd disgyblion Blwyddyn 6 yn treulio dau ddiwrnod yn Ysgol y Berwyn yn ystod Tymor yr Haf

## 13. FFURFLEN CAIS AM WYLIAU

### Gwyliau Teuluol a Gymerir yn ystod y Tymor

Fel arfer, ni ddylai rhieni/gwarcheidwaid gymryd disgyblion ar wyliau yn ystod y tymor, a pholisi Awdurdod Addysg Gwynedd yw eu hannog i beidio â gwneud hyn. Yn ôl Rheoliadau Presenoldeb Ysgol (Cofrestru Disgyblion) 1995, mae gan ysgolion hawl ddewisol i ganiatáu gwyliau teuluol blynyddol adeg tymor, ar yr amod fod yna amgylchiadau arbennig ar gyfer y cais, a bod y cais wedi'i gyflwyno ymlaen llaw gan y rhiant/gwarcheidwad sy'n preswylio gyda'r plentyn fel arfer. Dim ond y pennaeth all ganiatáu'r absenoldeb hon ond peidiwch â disgwyl i'r pennaeth dderbyn eich cais yn awtomatig. Hefyd, nodwch mai dim ond mewn amgylchiadau eithriadol y gellir caniatáu absenoldeb o fwy na 10 niwrnod ysgol o fewn unrhyw flwyddyn ysgol. (Mae llythyr newydd ynglŷn â'r drefn a'r costau am fethu ysgol gan Gyngor Sir Gwynedd.)

Bydd y pennaeth yn ystyried pob cais am absenoldeb gwyliau yn ofalus iawn gan gymryd i ystyriaeth oedran y disgybl, amserau'r gwyliau a hanes presenoldeb y disgybl. Yna, gwneir penderfyniad a ddylid rhoi caniatâd neu beidio. Os cymer y rhieni eu plentyn i ffwrdd ar wyliau heb ganiatâd cytunedig y pennaeth, yna bydd yr absenoldebau hyn yn rhai anawdurdodedig a chânt eu hadrodd yn ôl i'r Awdurdod Addysg Leol.

Os bydd yr ysgol yn caniatáu gwyliau adeg tymor, byddwn yn gofyn ichi drafod ffyrdd gyda'r pennaeth o gynorthwyo'ch plentyn i ddal i fyny â'r oriau addysg a gollwyd (50 awr ar gyfer gwyliau 10 niwrnod).

## 14. CYFRADDAU PRESENOLDEB

Mae'r Ysgol yn ceisio hyrwyddo presenoldeb uchel yn CA1 a CA2. Nod y Llywodraethwyr ar gyfer presenoldeb yw 96% sydd yn uwch na nod y Sir a Chymru. Presenoldeb yr ysgol yn ystod y flwyddyn 2018-19 — 96.4%.

## 15. ASESU (fel rhan o Gwricwlwm i Gymru)

**Fe fydd asesu'n rhan o gwricwlwm yr ysgol ac fe fydd yn rhan o'n profiad dysgu bob dydd.**

Bydd disgyblion yn gweithio gyda'r athrawon i ddeall pa mor dda maent yn gwneud cynnydd.
Mae hyn yn bwysig er mwyn:

- Helpu'r dysgwr i weld ble mae'n dysgu
- helpu'r dysgwr i gynllunio'r camau dysgu nesaf
- nodi unrhyw broblemau neu unrhyw gymorth ychwanegol sydd ei angen arnynt
- dod o hyd i ffyrdd i'w hymestyn neu i'w herio i ddysgu mwy
- helpu'r athrawon i weld pa mor dda y mae eu dosbarth yn ei wneud.

## 16. BLAENORIAETHAU

Mae gofynion statudol yn gofyn inni bennu TARGEDAU blynyddol y dylid ceisio ymgyrraedd tuag atynt.

### BLAENORIAETHAU 2020 – 2021:

**1:** Llythrennedd – Cymraeg a Saesneg.

Cynnal a chodi safonau addysgu llythrennedd a dysgu er mwyn galluogi pob disgybl i gyflawni hyd eithaf ei allu yn y ddwy iaith.

**2:** Datblygu defnydd effeithiol o Addysgu TGCh drwy'r ysgol er mwyn galluogi pob disgybl i ddal i fyny ac i gyflawni hyd eithaf ei allu — 'dysgu cyfunol' er mwyn parhau gyda'r dysgu.

**3:** Datblygu agweddau o iechyd a lles trwy'r ysgol wrth i ddisgyblion a staff ddychwelyd i'r ysgol yn dilyn cyfnod clo.

**4:** Ysgol Arloesi — parhau gyda gwaith Datblgiad Proffesiynol ac ymholiad proffesiynol.

## Yn ogystal â'r blaenoriaethau uchod byddwn hefyd yn targedu'r isod yn ystod y cyfnod dan sylw:

| | |
|---|---|
| Ethos | Sicrhau bod ethos o greu amgylchedd symbylol i mewn ac allan yn cael ei ddatblygu yn dilyn y gwaith adeiladu:<br>• Parhau gwaith Ysgolion Iach Gwynedd.<br>• Parhau gyda chynllun Eco Ysgol – cynnal y gwaith da sydd wedi ei wneud i gael ail faner Platinwm.<br>• Hyrwyddo Iechyd a Lles yr holl staff a'r disgyblion – hwn yn arfer Rhagorol gan Estyn 2018.<br>• Ethos gynhaliol i'w weld drwy'r ysgol. |
| CWRICWLWM | • Treialu'r Cwricwlwm Newydd – Ysgol Arloesi.<br>• Edrych ar y gwaith monitro llyfrau a gwersi, parhau gyda chynllun Datblygiad Proffesiynol Parhaus – datblygiadau arloesol y staff.<br>• parhau i fonitro Rhifedd a Llythrennedd yn draws gwricwlaidd.<br>• Monitro llyfrau themâu disgyblion<br>• Monitro ac arsylwi gwersi drwy'r ysgol.<br>• Rhaglen o gyd-weithio Dalgylchol. |
| DATBLYGU STAFF | • Parhau i ddatblygu gwaith Datblygiadau Proffesiynol Parhaus, gyda'r Llywodraeth a GwE.<br>• Datblygu staff yn ôl eu hanghenion – sicrhau fod aelodau staff yn mynuchu cyrsiau priodol.<br>• Datblygu ymhellach y CDP – monitro a chreu Blaenoriaeth ar gyfer yr ysgol a pharhau i ddatblygu'r cymorthyddion.<br>• Parhau i Reoli Perfformiad yn unol â'r gofynion statudol.<br>• Parhau i fonitro'r addysgu gan gyd-weithio gydag ysgolion y dalgylch<br>• Mynychu cyrisau priodol a drefnir gan y dalgylch a'r Sir, GwE ac yn Genedlaethol. |
| RHEOLAETHOL | • Sicrhau Polisïau newydd yn ganolog yn eu lle (Gwaith Buddug Mair Hughes).<br>• Sicrhau bod Polisïau Diogelu Plant yn eu lle ac yn gyfredol, cadw llygad ar bolisïau newydd y Sir ar y wefan. Uwchddyddio a pharhau i ddatblygu polisïau newydd.<br>• Sicrhau Asesiadau Risg newydd/wedi ei haddasu yn dilyn newidiadau i'r drefn oherwydd Covid-19.<br>• Gwneud yn siŵr fod gan bob aelod o staff fewnbwn i'r wefan G6 a bod y staff yn poblogeiddio'r safle.<br>• Sicrhau fod Llywodraethwyr yn monitro'r polisïau a bod rhaglen yn ei lle iddynt ymweld â'r Ysgol yn eu tro.<br>• Parhau i ddatblygu Llawlyfr y Llywodraethwyr 2020-21 – ychwanegu i'r cynnwys.<br>• Mynychu hyfforddiant i benaethiaid y Sir GwE a'r Cyngor Sir a Llywodraeth Cymru.<br>• Mynychu cyfarfodydd strategol a cyfarfodydd busnes y dalgylch. |
| ADNODDAU | • Gwneud y defnydd gorau o'r adnoddau sydd ar gael.<br>• Ceisio gwireddu'r argymhellion yn y CDY.<br>• Monitro'r gwariant a'r adnoddau. |

| | |
|---|---|
| **ADEILAD** | ○ Diogelu'r safle.<br>○ Cynnal yr adeilad, monitro'r gwaith gwariant pellach sydd ei angen, gwres Biomas a Nwy, Trefniadau Diogelwch Tân, CCTV, system ddod i mewn ac allan o'r adeilad<br>○ System i'r plant ddod i mewn i'r ysgol yn ei le yn dilyn y ffensys newydd.<br>○ Prynu cloch drydan i'r drws blaen<br>○ Diogelwch pawb o fewn a thu allan i'r adeilad – system arwyddo i fewn yn ei le.<br>○ Parhau i ddilyn trefn a polisïau Diogelwch ar gyfer y Sir. |
| **CYMUNED** | ○ Parhau i ddatblygu cyswllt hapus rhwng yr ysgol a'r rhieni – rhieni a aelodau o'r gymuned i mewn i gynorthwyo.<br>○ Parhau'r cyswllt hapus rhwng yr ysgol a'r gymuned – cael y gymuned i ddod i'r ysgol ar adegau pwysig, – diwrnod agored, Eisteddfod dydd Gŵyl Ddewi, Pabell Lên Eisteddfod Llungwyn, Bore Coffi MacMillan, Diwrnod y Llyfr ayyb.<br>○ Gwahodd Teulu Gwalia i'r ysgol am sgwrs a phaned. Canu iddynt yn ystod eu cinio Nadolig |
| **DYSGU AC ADDYSGU** | ○ Gosod targedau unigol i ddisgyblion mewn meysydd penodol.<br>○ Parhau i weithredu'r cynllun asesu ar gyfer dysgu gyda'r disgyblion yn rhan ganolog o'r gwaith.<br>○ Parhau ar waith Shirley Clark 'Growth Mindset' drwy'r ysgol.<br>○ Parhau i ddefnyddio cynllun *Tric a Chlic* yn y Cyfnod Sylfaen a gwaelod CA2.<br>○ Defnyddio'r Proffil Asesu yn y Cyfnod Sylfaen<br>○ Parhau i ddatblygu sgiliau meddwl a MPLl<br>○ Disgyblion i bennu targedau unigol a chyd asesu gwaith ei gilydd.<br>○ Defnydd o'r 'Geirio Gwych' drwy'r ysgol.<br>○ Gwaith Hwb+ – disgyblion i gyd i gael cerdyn adnabod, gweithio ar Hwb+ deall y gwanhol raglenni sydd arno. Parhau i ddatblygu gwaith Google Chrome, TT Rock Stars a Reading Eggs.<br>○ Parhau i ddatblygu TGCh i'r disgyblion allu danfon gwaith cartref i mewn. Hwb+ |
| **ARIANNOL** | ○ Sicrhau ein bod yn cadw rheolaeth dynn ar ein cyllid<br>○ Sicrhau ein bod yn rhoi gwerth am arian.<br>○ Parhau i ddatblygu'r staff a'r cwricwlwm yn derbyn yr arian sydd yn dod o'r Llywodraeth ysgolion Arloesi.<br>○ Rhyddhau athrawon i weithio ar gynlluniau penodol.<br>○ Ceisio am grantiau i wella adnoddau sydd yn yr adeilad, cadeiriau newydd ar gyfer defnydd gyda'r Gymuned.<br>○ Adnoddau gwell ar gyfer y disgyblion tu allan.<br>○ Cael prisiau i ddatblygu maes chwarae gwell – h.y. tebyg i 3G. |

## RHEOLAU YSGOL O.M. EDWARDS

1. **Ymweld â'r Ysgol a thrafod Materion:** Dylid cysylltu gyda'r Pennaeth yn gyntaf ym mhob achos.

2. **Absenoldebau:** Mae rheolau Cynulliad Cymru yn gofyn am wybodaeth gan rieni i ddweud y rheswm dros absenoldeb plentyn neu fe gaiff y plentyn ei farcio'n absennol heb awdurdod. Byddem yn hoffi cael **galwad ffôn** gennych mor fuan â phosibl ar ôl 9.00 y bore os na fydd eich plentyn/plant yn dod i'r ysgol y diwrnod hwnnw waeth beth fo'r rheswm. Mae hynny'n ein galluogi ni i wybod bod y plentyn/plant yn ddiogel.

3. **Diogelwch:** Ni chaniateir i blentyn fynd y tu allan i derfynau'r ysgol yn ystod oriau'r ysgol heb ganiatâd yr athrawon.

4. **Gwisg Ysgol:** Disgwylir i bawb wisgo gwisg swyddogol yr ysgol; sef crys polo coch a chrys chwys gwyrdd ynghyd â throwsus du neu sgert ddu, ac esgidiau du.

5. **Eiddo Personol:**

   (a) Disgwylir i bob plentyn ddod â dillad ar gyfer addysg gorfforol, sef crys T gwyn, shorts du a trenars/pymps.

   (b) Disgwylir i rieni ofalu bod **enwau'r plant** ar eu dillad.

   (c) Disgwylir i bob plentyn ddod â bag i ddal dillad addysg gorfforol.

   (ch) Disgwylir i bob plentyn ddod â ffedog neu hen grys T ar gyfer Crefft/Celf.

   (d) Cyfrifoldeb y plentyn ei hun yw unrhyw degan a ddaw i'r ysgol.

   (dd) Ni chaniateir unrhyw degan a all fod yn beryglus.

6. **Casglu Arian Cinio a Llaeth:** Cesglir arian cinio a llaeth gan y Clerc Mrs Catrin Morris am yr wythnos bob bore Llun neu'r diwrnod cyntaf yr agorir yr ysgol wedi gwyliau. Dylai plentyn a fu'n absennol ar ddydd Llun ddod a'r arian y diwrnod cyntaf y mae'n ôl yn yr ysgol.

   ◊ Yn unol â'n cynllun ysgolion iach, mae'r disgyblion yn cael ffrwythau bob bore a chodi'r tâl bychan am hyn sef 20c y dydd. Bydd angen i'r plentyn ddod â'r arian ar ddydd Llun i sylw'r athrawon dosbarth.

7. **Ni chaniateir 'gwm cnoi' yn yr ysgol.**

8. **Mynd Adref o'r Ysgol:**

   (a) Os oes oedolyn gwahanol i'r arfer yn dod i nôl plentyn o'r ysgol dylid rhoi gwybodaeth am hynny gan rieni i athrawon yr ysgol. Dylid rhoi gwybod i'r athrawon petai newid yn y drefn arferol hyd yn oed am ddiwrnod yn unig.

   (b) Ni chaniateir i blentyn fynd adref o'r ysgol gyda ffrind heb wybodaeth ymlaen llaw gan rieni.

   (c) Byddem yn ddiolchgar iawn pe bai'r rhieni yn gadael i'r Ysgol wybod os bydd rhifau ffôn yn newid (e.e. rhif ffôn symudol)

9. **Ni chaniateir car i mewn ar dir yr ysgol** heb ganiatâd y pennaeth, rhieni i gysylltu gyda'r Ysgol os bydd unrhyw un newydd yn dod i gasglu'r plentyn o'r Ysgol.

10. **Atgoffir rhieni mai'r amser statudol ar gyfer goruchwylio plant yw 10 munud cyn i'r ysgol gychwyn yn y bore (8.50 y.b. a 10 munud wedi i'r ysgol gau 3.40 y.p.) – ac eithrio'r Clwb Brecwast a gynhelir rhwng 8.05 a 8.40 bob bore.**

**Cofiwch godi'r ffôn neu alw draw am sgwrs os oes gennych unrhyw gwestiwn!**

Diolch yn fawr iawn,

Dilys Ellis-Jones, Pennaeth

## Adroddiad Estyn ar Ysgol O.M. Edwards, Ionawr 2018

**'Nodwedd eithriadol o dda yn yr ysgol yw'r parch a'r cwrteisi sydd gan bron pob un disgybl tuag at ei gilydd, at oedolion, ac at ymwelwyr. Mae eu medrau cyfathrebu a'u medrau cymdeithasol yn ardderchog ac yn gryfder arwyddocaol ymysg disgyblion ar draws yr ysgol. Mae bron pob disgybl yn mwynhau dod i'r ysgol ac yn dangos parodrwydd a brwdfrydedd amlwg tuag at ddysgu. Maent yn dangos parch tuag at oedolion ac yn oddefgar o anghenion eraill. Mae'r disgyblion yn teimlo'n ddiogel rhag unrhyw gamdriniaeth gorfforol a geiriol, ac maent yn ymwybodol o bwy i droi atynt mewn achosion o bryder. Mae bron pob disgybl yn dangos balchder tuag at yr ysgol ac yn cymryd cyfrifoldeb i hybu a chefnogi lles eu cyfoedion. Enghraifft dda o hyn yw'r cynllun `Ffrindiau Ffeind', lle mae disgyblion Blwyddyn 6 yn cael eu partneru gyda disgyblion ar draws yr ysgol er mwyn hybu'r ymdeimlad o berthyn i un teulu mawr.**

**Mae ymddygiad bron pob disgybl o safon uchel iawn. Maent yn ymddwyn yn ardderchog mewn gwersi ac wrth symud o gwmpas yr ysgol. Mae eu parodrwydd i weithio yn unigol, mewn parau ac mewn grwpiau yn dda iawn. Mae bron pob disgybl yn gwrando'n astud ar eu cyfoedion ac mae eu cyfraniad mewn trafodaethau dosbarth yn cael ei werthfawrogi. O ganlyniad i weithredu strategaethau meddylfryd twf, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ymwybodol o bwysigrwydd dyfalbarhau a datrys problemau ar y cyd gyda chyfoedion fel arfau i gwblhau tasgau. Drwy gynllunio themâu yn ymarferol ac yn drawsgwricwlaidd, mae bron pob disgybl wedi eu hymrwymo a'u cymell yn llwyddiannus i'r tasgau; ac yn dangos diddordeb tuag at holl waith y dosbarth.**

**Mae llais y disgybl yn cael dylanwad arwyddocaol ar y profiadau sy'n cael eu darparu. Mae cynrychiolwyr y cyngor ysgol yn cymryd eu rolau o ddifri ac yn gwbl hyderus ac annibynnol. Maent yn trafod blaenoriaethau'r cyngor yn hyderus ac yn mynd ati yn hollol annibynnol i'w gweithredu. Mae angerdd aelodau'r cyngor Siarter Iaith tuag at y Gymraeg, eu hardal a'u hetifeddiaeth yn gryfder allweddol yn yr ysgol.**

**Mae canran presenoldeb yr ysgol yn gyson uwch na thargedau Cenedlaethol.**

**<u>Barn</u>; Rhagorol. Estyn 2018**

**Canolbwynt ein holl waith caled yw'r plentyn yn y canol.<br>Cadwn hwn yn un o'n blaenoriaethau uchaf bob amser.**

# LLAWLYFR 2020-21

Ein nod yw creu ysgol gyfeillgar a hapus sy'n rhoi pob anogaeth i'ch plentyn ddysgu a datblygu hyd eithaf ei allu yn ystod ei amser hefo ni. Ceisiwn sicrhau bod yr ysgol yn lle diogel a braf ble caiff eich plentyn ei werthfawrogi a'i drin fel unigolyn. Ceisiwn annog y plant i fod yn aelodau cyfrifol o'r ysgol a'u cymdeithas leol a chyfagos, ac i dyfu'n bersonau sy'n ystyriol o eraill ac o'u hamgylchedd. Amcanwn i roi'r addysg orau bosibl i'n disgyblion.

Dyluniwyd ac argraffwyd yn Y Bala gan Nereus
01678 521229 dylannereus@btinternet.com

